Y Comisiwn Elusennau

# Adroddiad Blynyddol

2013/2014

HC 4

COMISIWN ELUSENNAU

Comisiwn Elusennau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14
(Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014)

Cyfrifon wedi'u cyflwyno i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyfrifon wedi'u cyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Adroddiad Blynyddol wedi'i gyflwyno i'r Senedd yn unol ag adran 13 a pharagraff 11 o Atodlen 1 o Ddeddf Elusennau 2011

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 10 Gorffennaf 2014

HC 4

*Mae hyn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau adrannol sydd, ynghyd â'r Prif Amcangyfrifon 2014-15 a'r ddogfen Gwariant Cyhoeddus: Dadansoddiadau Ystadegol 2014, yn cyflwyno alldro y Llywodraeth ar gyfer 2013-14 a gwariant a gynlluniwyd ar gyfer 2014-15*

OGL

© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon i enquiries@charitycommission.gov.uk

Ac mae hefyd ar gael ar ein gwefan www.charitycommission.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Ffigurau'r flwyddyn hon - pigion | 3 |
| Cofrestru | 4 |
| Dwyn elusennau i gyfrif | 9 |
| Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau | 13 |
| Hyrwyddo cydymffurfiaeth - canllawiau ar-lein a rhybuddion rheoleiddio | 24 |
| Goruchwylio a hwyluso gwaith elusennau | 29 |
| Y Rhaglen Ryngwladol | 32 |
| Ffigurau'r flwyddyn hon | 34 |
| Ein hymrwymiad i reoleiddio gwell | 38 |
| Atodiad Cyfreithiol | 40 |

# Cyflwyniad

## Diogelu elusennau drwy reoleiddio effeithiol

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn disgrifio sefydliad sy'n cael ei drawsnewid yn gyflym. Mae'r Comisiwn Elusennau yn troi'n sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol. Eto i gyd nid ydym yn llai cefnogol o'r mwyafrif o elusennau sy'n cael eu rhedeg yn dda. Drwy dynnu'r llinell rhwng yr hyn sydd wedi'i ganiatáu a heb ei ganiatáu, a thrwy fynd i'r afael â chamddefnydd a'i atal, rydym yn diogelu ac yn meithrin elusennau, yn edau aur yn yr hyn a alwodd William Beveridge yn "dapestri byw" ein bywyd cenedlaethol.

Mae hon yn genhadaeth hollbwysig. Mae gweithredu gwirfoddol a'r ysbryd gwirfoddol yn darparu'r gwir sylfaen ar gyfer ein cymdeithas. Mae elusennau'n grymuso cymunedau ac yn gweithredu fel byffer rhwng unigolion a'r wladwriaeth. Beveridge oedd wedi creu'r wladwriaeth les, ond roedd e'n dal i gredu yn anad dim yn yr unigolyn, ac ysgrifennodd fod "cymdeithas dda yn dibynnu nid yn unig ar y wladwriaeth ond ar ddinasyddion yn gweithredu'n unigol neu mewn cysylltiad rhydd â'i gilydd." Mae Kofi Annan, a ddaeth i ymweld â swyddfa Llundain y Comisiwn ym mis Mai, hefyd wedi sôn yn huawdl am y rôl allweddol y mae elusennau a chyrff anllywodraethol yn ei chwarae wrth ddatblygu a diogelu cymdeithasau democrataidd ledled y byd.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein blaenoriaethau, sef cydymffurfiaeth ac atebolrwydd yn ystod y flwyddyn dan sylw. I grynhoi, rwy'n hyderus bod y Comisiwn wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'r pryderon a godwyd gan adolygiad y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol o'n gwaith yn 2013. Er enghraifft, mae ein gwaith ymchwilio difrifol wedi cynyddu'n sylweddol, fel y gwelwch yn yr adroddiad hwn. Ond allwn ni ddim fod yn hunanfodlon, ac mae'n rhaid i ni barhau i wella.



Sam Younger William Shawcross

Wynebwn heriau difrifol yn yr ymdrechion hyn. Yn gyntaf, mae ein sefyllfa ariannol yn parhau'n ansefydlog, mater sydd wedi cael ei gydnabod gan nifer yn y byd elusennol a rhywbeth rydw i wedi'i godi gyda'r Llywodraeth. Ni allwn gymryd toriadau di-ben-draw i'n cyllideb ac mae'n bosib y bydd rhaid i ni ystyried ffynonellau eraill o gyllid. Yn ail, mae gwendidau yn ein pwerau cyfreithiol presennol yn tanseilio ein gallu i fod yn rheoleiddiwr effeithiol (gweler tudalen 14). Rwy'n falch bod y Llywodraeth yn cydnabod hyn a chroesawn y cyhoeddiad a wnaed yn araith y Frenhines am Fesur drafft. Byddwn yn parhau i bwyso am y cyfle cynharaf posibl i sicrhau Mesur llawn a fydd yn cryfhau ein pwerau ac yn gwella ein gallu i reoleiddio. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i staff y Comisiwn am eu hymrwymiad parhaus o dan amgylchiadau anodd. Mae eu cael nhw i goleddu ein blaenoriaethau newydd yn hollbwysig. Hoffwn i hefyd ddiolch i Sam Younger sydd wedi gorffen ei swydd Prif Weithredwr. Mae ei arweinyddiaeth ragorol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau craidd, gan addasu i'r toriadau dramatig yn ein cyllideb. Hoffai'r Bwrdd a minnau ddymuno'r gorau i Sam yn y dyfodol.

Croesawaf Paula Sussex sy'n ymuno â'r Comisiwn fel ein Prif Weithredwr newydd. Mae tasg heriol o'i blaen ond rwy'n sicr y bydd hi'n barod i wynebu'r her honno ac edrychaf ymlaen at gydweithio â hi.

William Shawcross,
**Cadeirydd**

# Cyflwyniad

## Datganiad o'r dull rheoleiddio

Mae amcanion, swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiwn wedi'u hamlinellu yn Neddf Elusennau 2011. Mae ein dull rheoleiddio yn ceisio bodloni'r disgwyliadau a nodir yn y Ddeddf honno, yn unol â'n hadnoddau.

Credwn y gallwn gyflawni ein hamcanion statudol orau, gyda'r adnoddau sydd gennym, drwy ganolbwyntio ar hyrwyddo cydymffurfiaeth gan ymddiriedolwyr elusen â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, drwy wella trylwyredd gwneud elusennau yn atebol, a thrwy sicrhau ein bod yn cynnal y diffiniad o elusen o dan y gyfraith elusennau. Credwn hefyd mai dyma'r ffordd orau i ni hyrwyddo ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau, ac annog rhoddion ac ymdrechion elusennol.

Byddwn yn gwylio rhag camddefnyddio elusennau neu gronfeydd elusennol at ddibenion anghyfreithlon neu amhriodol. Byddwn yn effro yn arbennig i dwyll, gweithgareddau dan derfysgwyr, camddefnyddio buddiolwyr agored i niwed a gwleidyddoli amhriodol.

Byddwn yn cymryd camau pendant pan fydd angen a byddwn yn gweithredu'n eofn wrth ddefnyddio ein pwerau statudol yn yr achosion mwyaf difrifol. Byddwn yn gweithredu'n gadarn os oes rheswm gennym dros amau cywirdeb yr wybodaeth a roddwyd i ni, neu os yw'r ymddiriedolwyr yn araf neu'n amharod i ymateb i'n pryderon. Os nad yw camgymeriadau go iawn gan ymddiriedolwyr yn cael canlyniadau difrifol, byddwn yn gweithio gyda'r ymddiriedolwyr hynny i ddatrys materion ac i gael yr elusen dan sylw yn ôl ar y trywydd iawn.

Byddwn yn rheoleiddiwr rhagweithiol a byddwn yn manteisio i'r eithaf ar ein data i adnabod risg a chanfod achosion posibl o gamddefnyddio elusennau.

Byddwn yn hyrwyddo atebolrwydd elusennau i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd drwy gynnal cofrestr gywir a thrwy gyhoeddi ar ein gwefan wybodaeth hygyrch am elusennau cofrestredig. Lle'n bosibl, byddwn yn tynnu sylw at elusennau sy'n destun ymchwiliad ffurfiol, er mwyn i'r cyhoedd allu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cefnogi elusennau penodol neu beidio.

Byddwn yn awdurdod effeithlon, gwrthrychol a chymesur sy'n ceisio sicrhau canlyniadau cyfiawn a rhesymol. Er ein bod yn cydnabod y gofyniad i weithredu o fewn y gyfraith, byddwn yn cefnogi cydweithwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau anodd a heriol yn aml lle mae'r risgiau wedi'u cyfiawnhau.

Byddwn yn parchu ac yn diogelu annibyniaeth elusennau. O dan y gyfraith, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr reoli eu helusennau. Ar yr amod eu bod yn gweithredu er lles gorau'r elusen yn unig, ac yn cydymffurfio â'u dyletswyddau i weithredu'n ddoeth o fewn y gyfraith ac o dan delerau eu dogfen lywodraethol, mae disgresiwn eang gan ymddiriedolwyr i weithredu fel y gwelant yn dda ac ni allwn ymyrryd yn ôl y gyfraith.

1. Y pum amcan cyntaf yw:
- Yr amcan hyder cyhoeddus - cynyddu ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau
- Yr amcan budd cyhoeddus - hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r gofyniad budd cyhoeddus
- Yr amcan cydymffurfio - hyrwyddo cydymffurfiaeth gan ymddiriedolwyr elusen â'u rhwymedigaethau cyfreithiol wrth arfer rheolaeth dros weinyddu eu helusennau
- Yr amcan adnoddau elusennol - hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol
- Yr amcan atebolrwydd - gwella atebolrwydd elusennau i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd.

# Ffigurau'r flwyddyn hon - pigion

| | |
|---|---|
| **6,661** | ceisiadau i gofrestru |
| **4,968** | ceisiadau i gofrestru elusennau wedi'u cymeradwyo |
| **48,274** | e-byst wedi'u hasesu gan y tîm Cymorth Cyntaf |
| **1,280** | digwyddiadau difrifol wedi'u hadrodd gan elusennau |
| **86%** | Ffurflenni Blynyddol wedi'u derbyn o fewn y dyddiad cau |
| **86%** | cyfrifon blynyddol wedi'u derbyn o fewn y dyddiad cau |
| **1,972** | achosion cydymffurfiaeth weithredol wedi'u cwblhau |
| **1,082** | achosion caniatâd gweithredol wedi'u cwblhau |
| **318** | achosion wedi'u cyfeirio at y tîm monitro gweithrediadau (rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2014) |
| **64** | ymchwiliadau statudol wedi'u cychwyn |
| **23** | ymchwiliad statudol wedi'u cwblhau |
| **87** | ymchwiliadau yn fyw fel ar 1 Ebrill 2014 |
| **672** | ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a drafodwyd |

I gael rhagor o wybodaeth ystadegol am ein gwaith eleni, gweler 'Ffigurau'r flwyddyn hon' (tudalen 34).

# Cofrestru

***Mae'n fraint bod yn elusen gofrestredig. Mae'n gysylltiedig â lefelau uchel o ffydd gyhoeddus ac mae'n cynnig manteision treth sylweddol. Felly mae'n hollbwysig mai dim ond elusennau go iawn sy'n ymuno â'n cofrestr.***

Un o'n swyddogaethau pwysicaf yw asesu ceisiadau i gofrestru a sicrhau mai dim ond sefydliadau sy'n bodloni'r prawf cyfreithiol ar gyfer statws elusennol sy'n cael eu cofrestru.

Yn ôl y gyfraith, mae elusen yn sefydliad â dibenion elusennol yn unig er budd y cyhoedd. Nid yw penderfynu a yw sefydliad yn elusen neu beidio yn golygu llunio barn ynghylch gwerth; mae sefydliadau naill ai'n elusennol yn ôl y gyfraith neu ddim.

Pan fyddwn yn asesu ceisiadau, ein rôl ni yw sicrhau bod y sefydliad yn bodloni'r prawf cyfreithiol.

Ni allwn wneud ein penderfyniad yn ôl a ydym yn meddwl bod angen am yr elusen newydd, a yw'r elusen yn debygol o lwyddo neu a yw ei hachos yn debygol o ddenu cydymdeimlad cyhoeddus.

Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i bobl ystyried yn ofalus ac yn onest ai sefydlu elusen newydd yw'r ffordd orau mewn gwirionedd o hyrwyddo'r achos o'u dewis, ac a ydynt yn barod ac yn gallu ymgymryd â chyfrifoldebau a dyletswyddau ymddiriedolwyr.

## Cofrestru elusen newydd

Os yw pobl yn gweld bod gwir angen am elusen newydd sbon, rydym yn disgwyl iddynt ddarllen ein canllawiau cofrestru yn ofalus iawn cyn cyflwyno cais. Ni allwn dderbyn ceisiadau anghyflawn neu wallus.

***"Rwy'n disgwyl pobl i wneud eu gwaith cartref cyn gwneud cais i gofrestru elusen. Rydw i bob amser yn dweud - os nad oes gennych chi'r amynedd i wneud ychydig bach o waith cyn cofrestru elusen, mae'n debyg na ddylech chi fod yn rheoli elusen. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn derbyn hyn ac yn gwneud ymdrech i sicrhau bod eu cais yn gyflawn."***

**Alison Wells, Pennaeth Cofrestru, Comisiwn Elusennau**

Eleni, derbyniwyd **6,661** o geisiadau a chymeradwywyd **4,968** o elusennau i'w cofrestru.

Rydym yn gwrthod ceisiadau yn ffurfiol pan fyddwn wedi dod i'r casgliad nad yw sefydliad yn elusen yn ôl y gyfraith. Gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 7 ar Human Dignity Trust, sefydliad sydd wedi cael ei wrthod i'w gofrestru.

Cofrestrwyd **4,968** o elusennau eleni

# Cofrestru

## Astudiaeth achos

### Elusen a gafodd ei chofrestru eleni

**Borehamwood Foodbank**

Mae'r elusen yn rhedeg banc bwyd yn Borehamwood Swydd Hertford sy'n darparu cymorth brys i bobl sydd mewn angen dybryd yn yr ardal. Cyflwynodd gais ar-lein i gofrestru yn Ionawr 2014. Roedden ni'n gallu derbyn y cais o fewn mater o ddiwrnodau oherwydd roedd yr ymddiriedolwyr elusen wedi gwneud eu gwaith cartref ac wedi cydweithio â'i chorff aelodaeth, Trussell Trust.

Mae Trussell Trust yn sefydliad Cristnogol sy'n goruchwylio rhwydwaith cynyddol o fanciau bwyd ar hyd a lled y wlad. Mae'n helpu i ddatblygu banciau bwyd newydd mewn ardaloedd o angen ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i'w aelodau, gan gynnwys cyngor am ddyletswyddau ymddiriedolwyr o dan y gyfraith elusennau.

Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â chyrff mantell megis Trussell Trust. Eleni, rhoddwyd hyfforddiant i'w aelodau staff ar ofynion statws elusennol a'r broses gofrestru.

Mae cydweithredu â chyrff mantell o fantais i elusennau ac i ni fel rheoleiddiwr. Mae'n helpu elusennau fel Banc Bwyd Borehamwood i gofrestru'n haws ac yn fwy cyflym a chael cyngor ac arweiniad gan rwydwaith sefydledig. Mae'n fanteisiol i ni oherwydd mae cyrff mantell yn helpu eu haelodau i gydymffurfio â'r gyfraith elusennau ac osgoi problemau rheoli difrifol.

Gweler tudalen 28 i gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith gyda phartneriaid yn y sector elusennol.

**Dywedodd Kristan Payne, Cadeirydd Borehamwood Foodbank:**

***"Rydw i wrth fy modd ein bod ni wedi gallu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau mor gyflym. Roedd yn golygu ein bod ni'n gallu dechrau helpu pobl yn Borehamwood yn syth. Bydden ni'n annog pobl eraill sy'n ystyried sefydlu banc bwyd newydd yn eu hardal i gysylltu â Trussell Trust. Gallan nhw eich helpu chi i gofrestru ac maen nhw'n rhoi llawer o gyngor ar sut i redeg eich elusen yn dda."***

## Cofrestriadau risg uchel

Weithiau, bydd pryderon yn codi yn ystod y broses gofrestru sy'n golygu bod rhaid i ni gadw golwg manwl ar ddulliau llywodraethu a rheoli elusen.

Erbyn hyn mae ein timau cofrestru yn cyfeirio elusennau o'r fath at ein tîm monitro gweithrediadau newydd a ddechreuodd weithio yn Hydref 2013.

Mae gwaith y tîm monitro gweithrediadau yn cynnwys monitro a yw'r ymddiriedolwyr yn rhedeg eu helusen yn unol â'u hamcanion ac yn cydymffurfio â'r gyfraith elusennau a chraffu ar ffurflen flynyddol a chyfrifon yr elusen. Os yw'r tîm yn canfod y bu camreoli neu gamddefnydd, byddwn yn ymchwilio i'r elusen.

Rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2014, cyfeiriodd ein tîm cofrestru **89** o elusennau i gael eu monitro gan ein tîm monitro gweithrediadau.

# Cofrestru

## Astudiaeth achos
### Elusen newydd ei chofrestru yn cael ei chyfeirio i'w monitro

*Allwn ni ddim enwi'r elusen hon oherwydd ei bod yn destun achos cydymffurfiaeth weithredol sy'n parhau.*

Pan wnaeth y sefydliad hwn gais i gofrestru, roedd ein tîm cofrestru wedi sylwi bod un o'r ymddiriedolwyr wedi bod yn gysylltiedig ag elusen arall oedd yn destun achos cydymffurfio parhaus. Roedd y sefydliad yn elusennol yn unig er budd y cyhoedd, ac nid oedd unrhyw bryderon pendant gennym am yr unigolyn oedd yn cael effaith ar statws elusennol y sefydliad, felly cofrestrwyd yr elusen. Fodd bynnag, roedd y tîm cofrestru wedi cyfeirio'r elusen at y tîm monitro gweithrediadau. Fel rhan o'r gweithgareddau monitro, cydweithiwyd yn agos ag asiantaethau eraill a defnyddiwyd ein pwerau cyfreithiol i wneud cais i weld cyfriflenni banc yr elusen.

Mae'r unigolyn dan sylw wedi ymddiswyddo ers hynny fel ymddiriedolwr ond mae'n parhau'n weithgar o fewn yr elusen. Rydym yn parhau i weithio gydag asiantaethau eraill a byddwn yn archwilio'n fanwl y set gyntaf o gyfrifon yr elusen.

## Astudiaeth achos
### Elusen wedi'i sefydlu i helpu pobl ifanc

*Ni allwn enwi'r elusen hon oherwydd mae wedi cael ei dileu o'r gofrestr*

Cofrestrwyd yr elusen hon yn Hydref 2013. Cafodd y cais ei wneud gan gwmni sy'n anfon ceisiadau yn aml ar ran elusennau. Roedd yr elusen wedi cael ei chofrestru'n flaenorol o dan enw gwahanol ond roedd wedi dirwyn i ben ar ôl i ni ddechrau ymchwilio i gwynion am weithgareddau codi arian afreolaidd. Felly roedd ein tîm cofrestru wedi cyfeirio'r elusen newydd ei chofrestru at y tîm monitro gweithrediadau.

Roedd y tîm wedi cysylltu â'r elusen a gofyn i gwrdd â'r ymddiriedolwyr. Cyn y cyfarfod, newidiwyd enwau'r ymddiriedolwyr ar y gofrestr ar-lein. Nid oedd yr ymddiriedolwyr hyn yn gallu darparu gwybodaeth bwysig am weithgareddau'r elusen cyn iddynt gael eu penodi, ac roedd hi'n amlwg nad oedd unrhyw weithgareddau elusennol yn digwydd. Yn dilyn y cyfarfod dywedodd yr ymddiriedolwyr wrthym eu bod nhw wedi penderfynu dirwyn yr elusen i ben. Mae wedi cael ei dileu o'r gofrestr bellach.

Yn y cyfamser, daeth i'r amlwg bod un o'r ymddiriedolwyr hefyd yn bwriadu bod yn ymddiriedolwr sefydliad arall, roedd yr un cwmni yn ceisio ei gofrestru fel elusen. Cysylltwyd â phob un o'r darpar ymddiriedolwyr i drefnu cyfarfod â nhw ond ni chafwyd ymateb ganddynt. Felly rhoddwyd gwybod i'r ymddiriedolwyr tan eu bod nhw'n cysylltu â'r tîm, bydden ni'n cymryd yn ganiataol nad oedden nhw am barhau â'u cais mwyach. Nid yw'r elusen wedi cysylltu â ni ers hynny.

Bydd unrhyw geisiadau yn y dyfodol gan y cwmni yn cael eu cyfeirio'n awtomatig i'r tîm monitro gweithrediadau; rydyn ni hefyd yn ystyried a oes angen i ni gyfeirio'r cwmni at asiantaethau eraill. Nid oes awdurdodaeth reoleiddio gennym ni dros y cwmni, oherwydd nid yw'n elusen.

# Cofrestru

## Cofrestru Preston Down Trust

Un o'r achosion cofrestru mwyaf proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd Preston Down Trust (PDT), neuadd gwrdd Eglwys Gristnogol Brodyr Plymouth.

Yn 2012, roedd y Comisiwn wedi gwrthod ei gais i gofrestru oherwydd daethom i'r casgliad nad oedd yn bodloni'r gofyniad budd cyhoeddus. Roedd PDT wedi apelio at y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen). Yn ystod y broses, gofynnodd yr ymddiriedolaeth i'r achos gael ei ystyried y tu allan i'r Tribiwnlys. Cytunwyd â'r cais hwnnw.

Yn Ionawr 2014, cofrestrwyd PDT ar sail dogfen lywodraethol newydd a datganiad o ddysgeidiaeth ac arfer. Cafodd ein penderfyniad ei groesawu gan gefnogwyr yn ogystal â beirniaid PDT. Byddwn yn monitro'r elusen, yn unol â'n trefn arferol gydag achosion cofrestru cymhleth, i sicrhau ei bod yn gweithredu yn unol â'i hymddiriedolaethau a'r gyfraith elusennau.

I gael crynodeb llawn o'r achos hwn, gweler yr Atodiad Cyfreithiol i'r adroddiad hwn.

## The Human Dignity Trust

Eleni, cadarnhawyd ein penderfyniad, a gafodd ei wneud yn wreiddiol yn 2012, i beidio â chofrestru'r Human Dignity Trust (HDT) fel elusen. Mae HDT yn helpu unigolion sy'n ceisio herio deddfwriaeth sy'n troseddoli gweithgaredd rhywiol cydsyniol rhwng oedolion o'r un rhyw mewn rhai gwledydd. Gwnaeth gais i gofrestru fel elusen yng Ngorffennaf 2011, a gofynnwyd i'r penderfyniad gael ei adolygu ar ôl i ni wrthod ei gofrestru ym Mehefin 2012.

Nid oedd ein penderfyniad i beidio â chofrestru'r sefydliad yn unrhyw adlewyrchiad ar deilyngdod ei ddibenion a'i waith; cydnabuwyd gwerth gwaith HDT o ran mynd i'r afael â'r hyn y mae sawl un yn ei weld yn anghyfiawnder mewn awdurdodaethau dramor. Fodd bynnag, ar ôl ystyried dibenion HDT yn ofalus, daethom i'r casgliad nad yw wedi'i sefydlu at ddibenion elusennol yn unig er budd y cyhoedd.

Y rheswm am hyn yw oherwydd y brif ffordd y mae HDT yn cyflawni ei ddibenion yw dwyn achosion cyfreithiol mewn rhai awdurdodaethau dramor, neu lysoedd rhyngwladol, lle mae HDT yn credu bod deddfwriaeth sy'n troseddoli gwrywgydiaeth yn gwrthdaro â'r gyfraith gyfansoddiadol neu'r gyfraith ryngwladol.

Ni all elusen gael dibenion sy'n ceisio newid y gyfraith oherwydd nid oes gan y llys unrhyw ffordd o benderfynu a yw newid o'r fath er budd y cyhoedd yn amgylchiadau arbennig y wlad dan sylw, waeth pa mor ddymunol y gallai newidiadau o'r fath fod. Mae'r sefydliad wedi apelio yn erbyn ein penderfyniad ers hynny at y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen).

# Cofrestru

## Sefydliadau corfforedig elusennol

Yn Rhagfyr 2012 dechreuwyd cofrestru elusennau o dan ffurf gyfreithiol newydd, sef Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). Drwy strwythur SCE mae elusennau yn cael manteision bod yn gorfforedig, e.e. atebolrwydd personol cyfyngedig i ymddiriedolwyr, heb yr holl feichiau gweinyddol sy'n gysylltiedig â bod yn gwmni. Er enghraifft, nid oes rhaid i SCEau gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau.

Cafodd SCEau eu cyflwyno'n raddol. I gychwyn roedd ffurf SCE ar gael i sefydliadau newydd sbon yn unig neu elusennau anghorfforedig gydag incwm dros £25,000. Ar hyn o bryd, mae'r holl elusennau anghorfforedig yn gallu newid. Yn 2013-14, cofrestrwyd **1,331** o SCEau.

## Ai dechrau elusen newydd yw'r ffordd orau o helpu?

Bydd pobl yn sefydlu elusennau newydd am wahanol resymau. Weithiau byddan nhw'n sefydlu elusen oherwydd eu bod nhw wedi gweld 'bwlch yn y farchnad' - angen newydd neu ffordd newydd o ddatrys hen broblem.

Ond weithiau bydd pobl yn cael eu cymell i sefydlu elusen newydd am resymau mwy personol, er enghraifft, i goffáu anwyliaid neu i 'roi rhywbeth yn ôl'. Mae'n dyst i'r ysbryd elusennol yn y wlad hon bod pobl sy'n cael profiadau sy'n newid eu bywydau yn aml yn ymateb drwy drugarhau wrth eraill. Ond nid sefydlu elusen newydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o helpu bob tro - ac mae gwneud hynny yn dod â chyfrifoldebau cyfreithiol mawr. Hefyd, pan fydd elusen yn cael ei sefydlu am resymau personol, nid yw pobl yn aros bob amser a meddwl am yr hyn fydd yn digwydd i'w helusen os nad ydynt yn gallu gweithredu fel ymddiriedolwyr mwyach.

Eleni, cyhoeddwyd canllawiau cofrestru wedi'u diweddaru sy'n helpu pobl i gydnabod bod sawl ffordd o wneud gwahaniaeth heb sefydlu elusen newydd sbon.

Mae'r canllawiau yn cynnig dewisiadau eraill i greu elusen newydd, megis gwirfoddoli ar gyfer elusen sy'n bod, sefydlu cronfa rhoddwr a enwir gyda Community Foundation neu sefydlu ymddiriedolaeth elusennol gyda'r Charities Aid Foundation. Mae'r rhain yn ddewisiadau eraill llwyddiannus i bobl a hoffai godi arian i ymateb i angen brys - er enghraifft, helpu pobl a effeithir gan drychineb naturiol - neu goffáu anwyliaid.

# Dwyn elusennau i gyfrif

***Mae statws elusennol yn fraint. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i elusennau fod yn agored ac yn atebol am yr hyn a wnânt a sut y cânt eu rhedeg. Mae'n rhaid i elusennau anfon rhywfaint o wybodaeth atom bob blwyddyn. Mae'r wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar y gofrestr elusennau ar-lein. Mae'n helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pa elusennau i'w cefnogi.***

Mae'n hollbwysig bod ymddiriedolwyr yn cymryd atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder o ddifrif. Mae gormod o elusennau yn hwyr yn ffeilio dogfennau neu nid ydynt yn ffeilio'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen o gwbl. Nid yw hyn yn dderbyniol ac rydym yn gweithredu er mwyn datrys hyn. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn, cychwynnwyd ymchwiliad dosbarth i elusennau oedd heb fodloni eu gofynion ffeilio am ddwy flynedd neu ragor (gweler tudalen 20 am astudiaeth achos o'r ymchwiliad dosbarth).

Yn 2013-14 roedd **86%** o elusennau oedd yn rhaid ffeilio eu Ffurflen Flynyddol ac **86%** o elusennau oedd yn rhaid ffeilio cyfrifon blynyddol wedi gwneud hynny mewn pryd. Mae'r cyfrifon a gafodd eu ffeilio â ni yn cyfrif am **99%** o gyfanswm incwm yr holl elusennau cofrestredig.

Mae'r wybodaeth y mae'n ofynnol i elusen ei rhoi i ni yn dibynnu ar faint yr elusen. Mae hyn yn sicrhau nad ydym yn rhoi baich anghymesur ar elusennau bach iawn.

Mae'n ofynnol i'r elusennau cofrestredig lleiaf, y rhai sydd ag incwm blynyddol o lai na £10,000, gyflwyno Ffurflen Flynyddol yn unig, sy'n dweud wrthym ni a'r cyhoedd beth maen nhw wedi'i wario a phwy yw ei hymddiriedolwyr.

## Newidiadau i'r Ffurflen Flynyddol

Mae'n rhaid i elusennau gydag incwm blynyddol o £10,000 neu fwy anfon Ffurflen Flynyddol ar-lein sy'n gofyn am amrywiaeth o wybodaeth ynghylch ymddiriedolwyr yr elusen, ei gweithgareddau, incwm a gwariant.

Bob blwyddyn, rydym yn adolygu'r cwestiynau a ofynnir yn y Ffurflen Flynyddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gennym ni'r wybodaeth sydd ei hangen i reoleiddio'n effeithiol a bod gan y cyhoedd fynediad i'r wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniadau gwybodus am elusennau.

Rydym wedi cynnwys rhai cwestiynau newydd yn y Ffurflen Flynyddol i'w defnyddio gan elusennau i adrodd ar y flwyddyn ariannol yn diweddu 2014. Er enghraifft, erbyn hyn mae'n rhaid i elusen ddweud a yw'n talu unrhyw ymddiriedolwyr, a yw'n codi arian gan y cyhoedd, ac oes is-gwmni masnachu ganddi.

Rydym yn parhau i adolygu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar y Ffurflen Flynyddol ac mae cwestiynau pellach yn debygol o gael eu hychwanegu ar gyfer blynyddoedd ariannol newydd.

# Dwyn elusennau i gyfrif

## Adolygu'r fframwaith cyfrifyddu ar gyfer elusennau

Mae cyfrifon blynyddol yn darparu gwybodaeth hollbwysig ynghylch sut mae elusen wedi defnyddio'r arian a roddwyd iddi. Mae Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn darparu naratif sy'n esbonio beth mae elusen yn ceisio ei wneud a beth y mae wedi'i gyflawni gyda'i hadnoddau. Gyda'i gilydd, mae'r cyfrifon a'r adroddiad yn darparu atebolrwydd hanfodol ar gyfer defnyddio arian elusennol.

Mae'n rhaid i elusennau gydag incwm o fwy na £250,000 a phob cwmni elusennol baratoi eu cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol (FRS) a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP Elusennau), y canllaw ar gymhwyso safonau cyfrifyddu. Mae'r safonau hyn yn newid wrth i'r DU symud tuag at UK FRS newydd sy'n fwy tebyg i'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol.

Bydd y SORP Elusennau newydd yn helpu elusennau i gymhwyso'r UK FRS newydd drwy esbonio arferion cyfrifyddu cyfredol, gan amlinellu beth y dylai cyfrifon elusen ei gynnwys a sut y dylid eu cyflwyno. Mae hyn yn helpu elusennau i roi cyfrif yn gyson am eu trafodion ariannol ac mae'n helpu i sicrhau ansawdd stiwardiaeth adrodd sy'n hanfodol ar gyfer atebolrwydd.

Ym mis Gorffennaf roedd y corff llunio SORP Elusennau ar y cyd (y Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) wedi lansio ymgynghoriad eang. Cynhaliodd 26 digwyddiad ar draws y DU, wedi'u mynychu gan fwy na 1,600 o gyfranogwyr, a chafwyd bron 180 o ymatebion ysgrifenedig.

Bydd y SORP Elusennau newydd yn cyflwyno nifer o newidiadau. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i bob elusen sy'n cyflwyno cyfrifon croniadau ddatgan sawl aelod o staff sy'n ennill cyflog o fewn y braced incwm dros £60,000. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r gwerth uchel y mae cyllidwyr a rhoddwyr yn ei roi ar wybodaeth am gyflogau staff.

Rydym wedi cydnabod na fydd rhai elusennau efallai yn barod i symud i'r FRS newydd yn 2015 ac felly rydym wedi datblygu SORP Elusennau yn seiliedig ar y Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (FRSSE) presennol wrth i ni aros i'r Cyngor Adrodd Ariannol ddatblygu safon newydd ar gyfer endidau llai.

Bydd elusennau yn dechrau dilyn y mathau newydd o SORP Elusennau pan fyddant yn adrodd am y blynyddoedd ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015.

## Monitro ac adolygu cyfrifon

Bob blwyddyn, byddwn yn adolygu sampl o gyfrifon elusennau. Mae ein gwaith yn cynnwys gwaith achos ac adolygiadau rhagweithiol o fathau arbennig o gyfrifon. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau o elusennau sydd â nodweddion risg arbennig yn ogystal â hapsamplau. Mae'r gwaith hwn yn helpu i ganfod camddefnydd ac yn tynnu sylw at adroddiadau gwael, ac mae'n annog elusennau i ddilyn arferion gorau wrth baratoi eu cyfrifon. Yn 2013-14 adolygwyd **1,664** o setiau o gyfrifon. Adolygwyd **643** o gyfrifon fel rhan o'r gwaith achos, gan gynnwys yr ymchwiliad dosbarth i'r rhai sydd heb gyflwyno cyfrifon ddwywaith yn olynol, a chafodd **1,021** eu hystyried fel rhan o'n rhaglen o adolygiadau rhagweithiol.

Mae'n ofynnol i elusennau o'r fath ddarparu gwybodaeth am gyfrifon yn Rhan B eu Ffurflenni Blynyddol. Dadansoddwyd yr wybodaeth hon er mwyn adnabod elusennau oedd ag un neu ragor o'r nodweddion risg canlynol:

- diffygion cynllun pensiwn,
- gwariant elusennol isel,
- rhwymedigaethau cyfredol net, a
- gostyngiad mewn gwaddol parhaol o'r flwyddyn flaenorol.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar ganlyniadau pob adolygiad, gan gynnwys y gwersi y credwn y gall elusennau eraill eu dysgu. Byddwn hefyd yn ystyried yr achosion hynny o bryder rheoleiddio sylweddol a welwyd mewn elusennau unigol.

# Dwyn elusennau i gyfrif

### Elusennau gydag incwm blynyddol o lai na £500,000

Cafodd yr elusennau hyn eu monitro drwy ddwy hapsampl cyfrifon. Roedd un ar gyfer elusennau gydag incwm o fwy na £25,000. Roedd yr ail ar gyfer elusennau gydag incwm blynyddol o lai na £25,000. Er ei bod hi'n ofynnol i bob elusen baratoi cyfrifon, nid oes rhaid i elusennau sydd o dan y trothwy hwn eu hanfon atom oni bai ein bod ni'n gofyn iddyn nhw wneud hynny. Pan fydd casgliadau'r adolygiadau hyn wedi cael eu dadansoddi, byddwn yn penderfynu pa gamau pellach i'w cymryd ac a fydd o gymorth i gyhoeddi'r canlyniadau.

## Yr offer chwilio elusennau ar-lein

Mae aelodau'r cyhoedd yn mynd i'r offer chwilio elusennau ar-lein i gael hyd i wybodaeth am elusennau. Yn 2013-14, cafodd manylion elusennau eu gweld dros **6.6 miliwn** o weithiau. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn datblygu fersiwn gwell o'r offer chwilio elusennau ar-lein. Caiff y gofrestr ar-lein newydd ei lansio fel fersiwn treialu neu fersiwn 'beta'. Mae hyn yn golygu y gallwn wneud newidiadau a gwelliannau pellach i'r offer yn seiliedig ar sylwadau gan ddefnyddwyr, cyn dileu'r hen fersiwn yn gyfan gwbl.

Bydd ein newidiadau yn ei gwneud hi'n haws i gyrchu a rhannu gwybodaeth am elusennau. Er enghraifft, bydd yn llawer haws i chwilio am elusennau o ffôn clyfar neu lechen. Mae hyn yn golygu y gall pobl wirio'r gofrestr pan fyddan nhw allan - er enghraifft pan fydd rhywun yn dod atyn nhw ar y stryd neu ar eu stepen drws i ofyn am gyfraniad. Bydd hefyd yn haws i rannu manylion elusennau drwy Facebook a Twitter.

Bydd defnyddwyr yn gallu lawrlwytho adrannau o'r gofrestr fel taenlen. Er enghraifft, bydd grwpiau cymunedol yn gallu defnyddio'r ddyfais i lanlwytho enwau a manylion cyswllt pob elusen yn eu hardal sy'n rhoi grantiau, gan ei gwneud hi'n haws i wneud cais am gyllid.

Rydym hefyd yn gobeithio y bydd y newidiadau yn annog ymchwilwyr ac arloeswyr i ddefnyddio'r data mewn ffyrdd creadigol, er enghraifft, datblygu cymwysiadau ar gyfer dyfeisiau electronig.

Yn ogystal â gwneud y gofrestr yn haws i'w defnyddio, rydym wedi ehangu'r ystod o wybodaeth sydd ar gael am elusennau ar y gofrestr ar-lein.

### Newidiadau pwysig

Bydd pobl yn gallu gweld yn gyflym:

- pa gyfran o wariant yr elusen sy'n mynd ar weithgareddau elusennol
- a yw'r elusen yn destun ymchwiliad statudol cyhoeddus
- a yw'r elusen wedi ffeilio ei dogfennau blynyddol mewn pryd
- a yw'r elusen yn ddiddyled neu yn nwylo'r gweinyddwyr
- a yw'r elusen yn talu unrhyw ymddiriedolwyr
- a yw'r elusen yn aelod o'r Bwrdd Safonau Codi Arian, sy'n golygu ei bod yn ymrwymedig i safonau codi arian uchel
- a yw cyfrifon yr elusen wedi cael eu harchwilio gan ei harchwiliwr ariannol neu archwiliwr annibynnol, sy'n golygu bod cwestiynau ynghylch agwedd ar reolaeth ariannol yr elusen.

# Dwyn elusennau i gyfrif

### Beth mae'r offer chwilio ar-lein newydd yn ei olygu i elusennau

Cofnod yr elusen ar y gofrestr ar-lein yw wyneb cyhoeddus yr elusen. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ei ddiweddaru er mwyn iddo gyfleu'r neges iawn am yr hyn y mae'r elusen yn ei wneud a pham ei bod hi'n werth ei chefnogi.

Bydd y gofrestr ar-lein newydd yn ei gwneud hi'n gliriach byth pan fydd elusennau heb fodloni eu gofynion adrodd. Os yw gwybodaeth flynyddol yr elusen yn hwyr, bydd ei chofnod ar y gofrestr yn gyfyngedig - dim ond gwybodaeth sylfaenol fydd ar gael i bobl ei gweld. Bydd hyn yn arwydd i'r cyhoedd nad yw'r elusen mewn sefyllfa dda ac nid yw'n haeddu eu cefnogaeth, yn ôl pob tebyg.

Disgwyliwn i elusennau ymateb i'r newidiadau rydym ni wedi'u gwneud i'r gofrestr ar-lein drwy sicrhau eu bod nhw'n ffeilio eu dogfennau blynyddol mewn pryd a'u bod yn cadw gwybodaeth, er enghraifft, am eu hymddiriedolwyr, yn gywir.

## Mesur ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau

Yn y pen draw, ein nod pennaf yw cynyddu ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau. Er mwyn mesur pa mor dda rydym yn ei wneud ac i helpu elusennau i ymateb i farn y cyhoedd, rydym yn comisiynu arolygon annibynnol bob yn ail flwyddyn. Mae'r arolygon yn sefydlu'r lefelau o ffydd mewn elusennau ac yn darganfod pa ffactorau sy'n cynyddu neu'n lleihau ffydd mewn elusennau.

Eleni, comisiynwyd Ipsos Mori i gynnal yr ymchwil. Roedd yr ymchwil wedi canfod bod ffydd a hyder mewn elusennau wedi parhau'n uchel at ei gilydd, gyda phobl yn rhoi sgôr gymedrig i elusennau o 6.7 allan o ddeg. Mae hyn yn rhoi elusennau ymysg y grwpiau yr ymddiriedir fwyaf ynddynt, trydydd yn unig ar ôl meddygon a'r heddlu. Mae'r sgoriau hyn yn gyson â lefelau 2012, pan gomisiynwyd y gwaith ymchwil diwethaf.

Roedd arolwg eleni hefyd wedi canfod bod pobl yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod rhoddion yn mynd i'r achos penodol hwnnw; mae ychydig llai na hanner o'r rhai a ofynnwyd (49%) yn dweud mai dyma'r ffactor pwysicaf sy'n sail i'w ffydd mewn elusennau.

Mae hyn wedi cynyddu'n fawr ers 2012 pan roedd y sgôr yn 43%. Mae'r casgliad hwn yn dangos pa mor bwysig yw hi i elusennau fod yn agored ac yn atebol am eu gwariant, a'n bod ni fel rheoleiddiwr yn parhau i wella mynediad cyhoeddus i wybodaeth am elusennau dryw'r gofrestr ar-lein.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld ar ein gwefan.

***"Yn gyffredinol mae gan y cyhoedd ffydd bod elusennau yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, eu bod nhw'n gallu gwneud penderfyniadau annibynnol a bod codwyr arian yn onest ac yn foesegol. Maen nhw'n llai tebygol o fod yn ffyddiog y bydd swm rhesymol o roddion yn mynd at yr achos terfynol."***

**Dyfyniad o adroddiad ffydd a hyder cyhoeddus Ipsos Mori confidence.**

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

***Yn anffodus, gall ac mae elusennau'n dioddef camddefnydd a chamreoli. Bydd problemau'n codi'n aml oherwydd nid yw ymddiriedolwyr yn deall y gyfraith neu nid ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau. Ond gall camreoli hefyd gynnwys drwgweithredu bwriadol gan ymddiriedolwyr elusen.***

Mae pob math o gamreoli mewn elusennau yn annerbyniol, waeth beth sydd wedi'i achosi. Mae camreoli a chamymddygiad yn niweidio'r elusen dan sylw ac yn tanseilio ffydd a hyder mewn elusennau yn gyffredinol, yn enwedig os oes elfen o gamddefnydd bwriadol neu droseddol.

Ein rôl ni yw adnabod camddefnydd a chamreoli mewn elusennau, rhoi sylw iddo a'i atal. Eleni, rydym wedi cryfhau ein gwaith cydymffurfio, ymchwilio a gorfodi. Mae ein datganiad newydd o'r dull rheoleiddio (gweler tudalen 2) yn ei gwneud hi'n glir bod cydymffurfiaeth yn amcan â blaenoriaeth.

Erbyn hyn rydym yn ymyrryd yn gyflymach pan fydd ymddiriedolwyr yn rhoi eu helusen mewn perygl. Mae'r ymagwedd lymach hon wedi'i hadlewyrchu yn nifer yr ymchwiliadau statudol sydd wedi cael eu cychwyn eleni.

## Gwella ein hymagwedd

### Gwneud defnydd gwell o'n pwerau cyfreithiol

Diben ymchwiliadau statudol yw ymchwilio i bryderon difrifol. Felly defnyddiwn ein pwerau yn rheolaidd erbyn hyn yn ystod ymchwiliadau statudol i gael gwybodaeth neu ddogfennau gan ymddiriedolwyr. Yn y gorffennol, roedden ni'n gofyn i ymddiriedolwyr am wybodaeth fel arfer, gan ddefnyddio ein pwerau dim ond pan oedd ymddiriedolwyr yn gwrthod cydweithredu.

Mae defnyddio ein pwerau i gasglu gwybodaeth yn ystod ein hymchwiliadau yn helpu ymddiriedolwyr i ddeall difrifoldeb y sefyllfa ac mae'n cyflymu ein hymchwiliadau.

Rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, defnyddiwyd ein pwerau cyfreithiol yn ein gwaith ymchwilio **540** o weithiau[1] ; yn 2012-13, defnyddiwyd ein pwerau 216 o weithiau.

1 Mae hyn yn cyfeirio at bwerau a ddefnyddiwyd yn yr Uned Ymchwiliadau a Gorfodaeth, ac nid yw'n cynnwys pwerau a ddefnyddiwyd yn ein gwaith achos cydymffurfiaeth weithredol

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Helpu i atal twyll - gwiriadau newydd i ymddiriedolwyr

Eleni, cafodd ein dull o wirio data ymddiriedolwyr ei wella. Pan fydd elusennau'n cwblhau eu Ffurflen Flynyddol, mae'n rhaid iddynt lofnodi datganiad yn cadarnhau nad yw unrhyw ymddiriedolwyr wedi'u hanghymhwyso rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr, er enghraifft oherwydd bod collfarn heb ddarfod ganddynt am drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd.

Eleni, ymunwyd â CIFAS, y gwasanaeth atal twyll, sy'n rhoi mynediad gwell i wybodaeth am bobl sydd wedi ymwneud â thwyll. Erbyn hyn gallwn ddefnyddio Cronfa Ddata Twyll Cenedlaethol CIFAS i helpu i adnabod a delio ag unigolion y gallai eu cysylltiad ag elusen fod yn achos o bryder. Os yw gwiriadau pellach yn cadarnhau bod ymddygiad unigolyn yn golygu ei fod wedi'i anghymhwyso rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr, byddwn yn cymryd camau i sicrhau eu bod nhw'n rhoi'r gorau i weithredu fel ymddiriedolwr.

Yr elusennau sy'n gyfrifol o hyd am sicrhau bod ymddiriedolwyr a gweithwyr wedi cael eu dilysu cyn cael eu penodi, ond mae ymuno â CIFAS yn ein helpu i gael hyd i'r rhai sydd efallai yn cuddio gwybodaeth o'u cyd-ymddiriedolwyr neu sydd wedi rhoi gwybodaeth ffug am eu cymhwysedd i ni.

## Adnabod risg yn well

Ni wyddys union raddfa twyll mewn elusennau. Ond yn ogystal ag adnabod unigolion a allai fod yn achos o bryder, bydd aelodaeth o CIFAS yn ein helpu i ddeall yn well y risgiau strategol sy'n wynebu elusennau. Er enghraifft, bydd yn ein helpu i adnabod a yw rhai mathau o elusennau yn fwy tueddol o fod â chysylltiadau â thwyll.

Bydd yr wybodaeth hon yn golygu y gallwn dargedu elusennau sydd mewn perygl drwy gyfrwng monitro rhagweithiol neu drwy waith craffu cyfrifon wedi'i dargedu (gweler tudalen 10-11). Yn ei dro, bydd hyn yn golygu ein bod yn defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn fwy effeithlon ac effeithiol i adnabod ac atal twyll.

## Ein galwad am bwerau cyfreithiol cryfach

Mae gwendidau yn ein pwerau cyfreithiol presennol yn tanseilio ein gallu i fod yn rheoleiddiwr effeithiol. Rydym wedi galw ar y Llywodraeth i gryfhau ac estyn ein pwerau i atal a gwella camddefnydd mewn elusennau. Mewn ymateb i hyn, ym mis Rhagfyr, roedd Swyddfa'r Cabinet wedi ymgynghori ar gynigion i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Mae'r newidiadau rydym yn eu ceisio yn cynnwys estyn y meini prawf presennol ar gyfer anghymhwyso awtomatig rhag gweithredu fel ymddiriedolwr ac mae'n rhoi pŵer uniongyrchol i ni anghymhwyso unigolion y mae eu gweithredoedd yn eu gwneud nhw'n anaddas i fod yn ymddiriedolwyr. Byddai'r pŵer olaf yn dileu'r man gwan presennol sy'n caniatáu i rywun osgoi gweithredu gan y Comisiwn dim ond drwy ymddiswyddo fel ymddiriedolwr. Rydym wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog i'w hysbysu o bwysigrwydd hyn, ac rydym wedi croesawu'r cyhoeddiad a wnaed yn araith y Frenhines ynghylch Mesur drafft. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at ddeddfwriaeth sy'n cryfhau ein pwerau ac yn gwella ein gallu i reoleiddio.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Gwella tryloywder

Eleni, rydym wedi parhau i wella pa mor dryloyw rydym ni am ein gwaith i fynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli.

Erbyn hyn rydym yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus ar bron pob ymchwiliad statudol newydd. Ni fyddwn yn gwneud hynny dim ond os oes rheswm budd cyhoeddus neu weithredol cryf, er enghraifft, pe byddai gwneud hynny yn debygol o ymyrryd ag achos cyfreithiol neu'n lliwio achos cyfreithiol, proses deg neu ganlyniad effeithiol ein hymchwiliad neu weithrediadau asiantaethau eraill.  Yn y gorffennol, cyhoeddwyd datganiadau rhagweithiol dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Rydym hefyd yn cyhoeddi diweddariadau ar yr ymchwiliadau statudol mwyaf proffil uchel pan fydd er lles y cyhoedd i wneud hyn. Erbyn hyn mae'r gofrestr ar-lein yn dangos a yw elusen yn destun ymchwiliad statudol cyhoeddedig cyhoeddus (gweler tudalen 11). Rydym hefyd wedi dechrau cyhoeddi adroddiadau am achosion cydymffurfiaeth weithredol (gweler isod i gael rhagor o wybodaeth am ymchwiliadau statudol ac achosion cydymffurfiaeth weithredol). Mae'r adroddiadau byr hyn yn esbonio pam roedden ni wedi ymyrryd, a beth roedden ni wedi canfod.

Bydd bod yn fwy agored yn helpu'r cyhoedd i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch pa elusennau i'w cefnogi. Rydym hefyd yn gobeithio, drwy adrodd yn fwy agored am ein hachosion, y gallwn gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a hyder yn ein gwaith fel rheoleiddiwr a helpu ymddiriedolwyr i osgoi camgymeriadau tebyg rhag digwydd yn eu helusennau nhw.

## Ein gwaith achos rheoleiddio

### Sut rydym yn ymateb i bryderon

Rydym yn asesu pob pryder sy'n cael ei godi gyda ni am elusennau yn erbyn ein fframwaith risg. Mae'r ddogfen gyhoeddedig hon yn esbonio ein meini prawf ar gyfer ymateb i bryderon ac mae'n ein helpu ni i'w hasesu yn gadarn ac yn gyson. Mae'n tynnu sylw at dri risg strategol rydym wedi'u nodi fel rhai a allai gael yr effaith fwyaf niweidiol ar elusennau unigol a hefyd ffydd mewn elusennau yn gyffredinol (gweler isod).

Rydym yn adolygu'r fframwaith risg yn gyson.

Eleni, diweddarwyd y fframwaith i egluro ein blaenoriaeth i fod yn effro i effaith trefniadau treth twyllodrus a'r effaith ar ffydd a hyder cyhoeddus.

Os yw'r pryderon sy'n cael eu codi gyda ni am elusen yn ddifrifol, neu os ydyn nhw wedi'u cynnwys yn un o'r tri maes risg strategol, cânt eu cyfeirio at weithwyr achos yn ein timau gweithrediadau neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, i'n tîm ymchwiliadau a gorfodi. Mae gweithwyr achos yn y tîm ymchwiliadau a gorfodi yn cynnal ymchwiliadau statudol, wedi'u cadw ar gyfer y materion rheoleiddio mwyaf difrifol.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Ein tair blaenoriaeth strategol

Ein tair risg â blaenoriaeth yw: twyll a throseddau ariannol, methiannau diogelu mewn perthynas â buddiolwyr agored i niwed a chamddefnyddio elusennau at ddibenion terfysgaeth.

Mae ein strategaethau ar gyfer delio â'r meysydd risg hyn yn amlinellu ein rôl ni, dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr, ac yn darparu dolenni i'n canllawiau a'n hoffer i helpu ymddiriedolwyr i reoli'r risgiau yn y meysydd hyn.

Rydym yn parhau i gyhoeddi rhybuddion ar gyfer y cyhoedd ac i elusennau os oes risg o dwyll neu gamddefnydd (gweler tudalen 25).

Rydym hefyd wedi cyhoeddi rhybuddion i ymddiriedolwyr elusennau ac apeliadau elusennol sy'n trefnu neu sy'n cymryd rhan mewn confois cymorth dyngarol i helpu'r rhai a effeithir gan argyfwng Syria. Rydym wedi parhau â'n gwaith allgymorth gyda phrifysgolion ac undebau myfyrwyr hefyd ar reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â siaradwyr a chyhoeddiadau, gydag elusennau ffydd ar gryfhau dulliau llywodraethu a rheoli risg yn y tri maes allweddol hyn, a gydag elusennau sy'n gweithio'n rhyngwladol ar arfer da ym maes diwydrwydd dyladwy a monitro a rhoi cyfrif am y defnydd terfynol o gronfeydd.

## Achosion cydymffurfiaeth weithredol

Mae'r rhan fwyaf o'r pryderon am elusennau yn cael sylw trwy achosion cydymffurfiaeth weithredol. Mae ein gweithwyr achos cydymffurfiaeth yn asesu ac yn unioni methiannau llywodraethu mewn elusennau. Rydym yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn fwy aml yn ystod achosion cydymffurfiaeth weithredol. Gallwn gyflawni'r canlyniad a fwriedir yn aml drwy ddarparu cyfarwyddiadau rheoleiddio cadarn i ymddiriedolwyr. Os ydym yn darganfod pryderon mwy difrifol, neu os yw ymddiriedolwyr yn gwrthod cydweithredu, gallwn symud yr achos i lefel ymchwiliad statudol.

Fel rhan o'r achosion cydymffurfiaeth weithredol, gallwn gyhoeddi cynlluniau gweithredu i gyfarwyddo ymddiriedolwyr i gymryd camau arbennig o fewn amserlen benodedig. Yna byddwn yn dilyn hyn i fyny gyda'r ymddiriedolwyr i sicrhau eu bod nhw wedi rhoi'r cynllun ar waith. Mae'r gwaith dilynol hwn yn cael ei wneud gan y tîm monitro gweithrediadau (gweler tudalen 17). Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac mae'n golygu bod mwy o amser gan swyddogion achos yn y timau gweithrediadau i ddelio ag achosion newydd.

Cychwynnwyd **1,865** o achosion cydymffurfiaeth weithredol newydd yn 2013-14; daeth **1,972** o achosion cydymffurfiaeth weithredol i ben yn ystod y flwyddyn.

Cyhoeddwyd **74** o gynlluniau gweithredu fel rhan o'r achosion cydymffurfiaeth weithredol eleni.

Y materion mwyaf cyffredin a gododd mewn achosion cydymffurfiaeth weithredol a gwblhawyd y flwyddyn hon oedd:

- materion a godwyd mewn adroddiadau o ddigwyddiadau difrifol (gweler tudalen 23 i gael rhagor o wybodaeth)
- materion cyfrifyddu
- pryderon am ymddiriedolwyr anghymwys
- camddefnyddio cronfeydd
- twyll a lladrad
- materion a godwyd mewn adroddiadau chwythu'r chwiban
- pryderon am godi arian.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Ein hymagwedd at fonitro

Yn Hydref 2013, sefydlwyd tîm monitro gweithrediadau newydd i hybu ein gallu monitro. Mae'r tîm monitro gweithrediadau yn delio â'r achosion hynny sydd heb gael eu hasesu yn erbyn ein fframwaith risg fel rhai sydd â'r risg fwyaf neu sy'n cynnwys y pryderon mwyaf difrifol, ond y mae angen eu monitro serch hynny. Mae hyn yn cynnwys dilyn i fyny achosion lle mae'r timau gweithrediadau wedi rhoi cyngor ac arweiniad rheoleiddio neu gynllun gweithredu i ymddiriedolwyr, neu lle mae angen i ni sicrhau bod y cyngor a'r arweiniad neu'r cynllun gweithredu wedi cael eu dilyn. Mae'r tîm hefyd wedi adnabod meysydd eraill o bryder drwy gydweithio'n agosach ag asiantaethau eraill y llywodraeth a thrwy ddefnyddio'r wybodaeth statudol ac anstatudol a roddir i'r Comisiwn gan elusennau. Mae'r tîm wedi cydweithio'n agos â'n tîm cofrestru i fonitro elusennau y mae pryderon wedi codi amdanynt yn y cam cyn-gofrestru a chofrestru (gweler tudalen 5). Derbyniodd y tîm **318** o gyfeiriadau eleni (Hydref 2013 - Ebrill 2014).

Yn ogystal, mae tîm monitro cyn-ymchwilio gennym ni, sy'n monitro elusennau lle mae pryderon yn ymwneud ag achosion difrifol o beidio â chydymffurfio, neu risg sylweddol o beidio â chydymffurfio difrifol o fewn elusen neu ddosbarth o elusennau.

Mae'r monitro gan yr uned hon yn cynnwys:

- cydweithio'n agos â rheoleiddwyr eraill y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith
- adolygu'r wybodaeth y mae'r elusennau yn ei rhoi i ni, ynghyd ag archwilio priodol ac wedi'i dargedu o gyfrifon
- monitro ffurfiol i sicrhau bod ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'r cyngor ac arweiniad rheoleiddio ar ôl i'n hymgysylltiad rheoleiddio ffurfiol â'r elusen ddod i ben
- monitro rhagweithiol o'r sector yn y meysydd rydym yn eu nodi fel meysydd risg uchel ac ymgysylltu rhagweithiol â'r elusennau hynny a allai weithredu mewn meysydd risg uchel ac y gallent fod yn wynebu problemau
- cynnal ymweliadau cydymffurfiaeth ag elusennau sydd wedi'u nodi fel rhai a allai fod mewn perygl er mwyn i ni allu sefydlu a oes unrhyw bryderon rheoleiddio difrifol, ac os oes, darparu cyngor rheoleiddio a chymorth goruchwylio.

Gallwn hefyd fonitro elusennau os nad ydym yn gallu gweithredu ar unwaith, neu os ydym wedi ein cyfyngu o ran y camau y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon rheoleiddio, oherwydd mae ymchwiliad gorfodi'r gyfraith yn cymryd blaenoriaeth ar ein hymchwiliad ni, a lle y gall ein hymyrraeth niweidio neu rwystro'r ymchwiliad troseddol. Cychwynnodd yr uned fonitro cyn-ymchwilio **95** o achosion a chwblhawyd **54** o achosion a chynhaliwyd **68** o ymweliadau monitro yn ystod y flwyddyn dan sylw.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Astudiaeth achos

### Achos cydymffurfiaeth weithredol i Bufferzone

**Am yr elusen**

Roedd amcanion yr elusen yn cynnwys hyrwyddo budd pobl Cernyw drwy fynd i'r afael â materion iechyd meddwl. Yn ymarferol, roedd yn darparu gwasanaeth eiriolaeth ac allgymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

**Ein rheswm dros ymyrryd**

Derbyniwyd nifer o gwynion yn honni bod defnyddwyr gwasanaeth agored i niwed yn teimlo eu bod yn cael eu bygythio gan yr elusen, gan gynnwys bod dan bwysau i dalu 'ffioedd gwirfoddol' yn gyfnewid am gymorth gan yr elusen. Roedd angen i ni ddeall prosesau'r elusen ar gyfer diogelu buddiolwyr agored i niwed a sicrhau bod yr ymddiriedolwyr yn ymateb i'r cwynion.

**Y camau a gymerwyd**

Gofynnwyd i'r ymddiriedolwyr adrodd am y digwyddiadau i Swyddog Diogelu Oedolion Cyngor Sir Cernyw. Gofynnwyd i'r ymddiriedolwyr ddarparu amryw o ddogfennau a gwybodaeth (gan gynnwys polisïau a chyfrifon diogelu). Doedden nhw ddim yn gallu gwneud hynny, felly gwnaethom ni drefnu i gwrdd â'r ymddiriedolwyr.

**Beth wnaethom ni ddarganfod**

Gwelwyd bod dulliau goruchwylio a rheoli'r ymddiriedolwyr yn hollol annigonol ar gyfer yr elusen. Doedd dim polisïau neu weithdrefnau diogelu ysgrifenedig ac roedd gwirfoddolwyr yn cael eu gadael heb eu goruchwylio am gyfnodau hir. Roedd pryderon difrifol hefyd am ddulliau llywodraethu mwy cyffredinol yr elusen. Nid oedd gan drysorydd yr elusen lawer o wybodaeth am weithdrefnau cyfrifyddu'r elusen ac nid oedd unrhyw gyfrifon rheoli, cyfriflyfrau neu daenlenni i reoli'r llif arian. Nid oedd unrhyw reolaethau ariannol yn eu lle gan yr elusen ac nid oedd yn gallu darparu cyfriflenni banc neu fonion llyfr siec i ni. Daethom i'r casgliad bod yr ymddiriedolwyr yn methu yn eu dyletswydd i ddiogelu buddiolwyr agored i niwed, nad oedd unrhyw reolaethau a gweithdrefnau llywodraethu cadarn yn eu lle, a bod y rheolaeth ariannol yn hollol annigonol.

**Effaith ein hymyrraeth**

Dywedwyd wrth yr ymddiriedolwyr bod dau ddewis ganddyn nhw:

1. naill ai bod rhaid iddyn nhw gydnabod eu cyfrifoldeb dros lywodraethu'r elusen a gweithgareddau ei gwirfoddolwyr drwy roi polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle; neu
2. gallai'r ymddiriedolwyr ddiddymu'r elusen yn unol â darpariaethau ei chyfansoddiad.

Penderfynodd yr ymddiriedolwyr ddiddymu'r elusen.

**Gwersi i elusennau eraill**

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol gan ymddiriedolwyr; yn achos ymddiriedolwyr elusennau sy'n gweithio gyda buddiolwyr agored i niwed, mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys sicrhau bod polisïau cadarn yn eu lle i ddiogelu'r buddiolwyr a sicrhau bod y polisïau hynny yn cael eu dilyn. Nid lle'r Comisiwn yw penderfynu a ddylai elusen barhau neu beidio. Ond ein rôl ni yw darparu cyngor rheoleiddio mewn achosion o bryder difrifol. Yn yr achos hwn, roedd difrifoldeb y problemau llywodraethu yn dangos i ni fod posibilrwydd nad oedd yr elusen yn hyfyw.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Achosion asesu cyn-ymchwiliad

Pan fydd problem neu achos i'w weld mor ddifrifol ac felly mae'n bosib y bydd angen cychwyn ymchwiliad statudol, mae ein tîm asesu cyn-ymchwiliad yn cynnal asesiad cyn-ymchwiliad i ystyried a yw'r achos yn bodloni'r trothwy ar gyfer cychwyn ymchwiliad.

Mae gweithwyr achos asesu cyn-ymchwiliad yn asesu natur y pryder a lefel y risg drwy gymhwyso ein fframwaith risg. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch yn ein penderfyniadau a bod yr achosion risg uwch yn cael eu blaenoriaethu a bod adnoddau priodol ar gael. Mae'r holl bryderon am gamddefnyddio elusen at ddibenion terfysgwyr neu eithafol yn cael eu cyfeirio at y tîm Asesu Cyn-ymchwiliad.

Eleni, cychwynnwyd **115** o achosion a chwblhawyd **118** o achosion asesu cyn-ymchwiliad.

## Astudiaeth achos

### Ymyrrwyd i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn diogelu eu helusen

#### Am yr elusen

Mae'r elusen yn undeb myfyrwyr yn Lloegr.

#### Ein rheswm dros ymyrryd

Cawsom ein rhybuddio am ddigwyddiad oedd yn cael ei drefnu gan gymdeithas myfyrwyr wedi'i chysylltu â'r elusen. Roedd dau unigolyn oedd yn mynd i siarad wedi bod yn destun sylw yn y cyfryngau cyn hynny a gwnaed honiadau eu bod nhw wedi gwneud datganiadau dadleuol ac eithafol yn gyhoeddus. Roedd rhaid i ni ganfod sut roedd ymddiriedolwyr yr elusen wedi asesu a rheoli unrhyw risgiau a allai godi o'r elusen mewn cysylltiad â'r digwyddiad a'r siaradwyr allanol, gan gynnwys y risg o golli ffydd gyhoeddus yn eu helusen.

#### Y camau a gymerwyd

Cysylltwyd â'r elusen ar unwaith a gofynnwyd i'r ymddiriedolwyr ddarparu tystiolaeth eu bod nhw wedi ystyried yn briodol y risgiau oedd yn gysylltiedig â chaniatáu i siaradwyr dadleuol gymryd rhan yn y digwyddiad. Hefyd, roedd rhaid i ni ganfod a oedd polisïau a gweithdrefnau gan yr elusen yn eu lle ar gyfer rhedeg digwyddiadau ac asesu'r risgiau.

#### Beth wnaethom ni ddarganfod

Roedd yr ymddiriedolwyr wedi egluro bod polisi siaradwr cytunedig ganddynt yn ei le, ond bod y digwyddiad hwn wedi cael ei drefnu yn ddiarwybod iddyn nhw a heb ddilyn polisi'r elusen. Roedden nhw wedi ymyrryd yn y cyfamser a chadarnhau bod un o'r ddau siaradwr yn amhriodol yn eu barn nhw. Roedden nhw wedi cymryd camau hefyd i sicrhau bod y siaradwr arall yn cydymffurfio â pholisi siaradwr yr elusen. Esboniwyd y byddai un ymddiriedolwr yn mynychu ac yn monitro'r digwyddiad er mwyn iddyn nhw allu, os oedd angen, herio unrhyw ddatganiadau a allai fod yn niweidiol i'r elusen.

#### Effaith ein hymyrraeth

Cadarnhaodd yr ymddiriedolwyr y bydden nhw'n cynnal ymchwiliad mewnol llawn er mwyn sefydlu sut roedd y gymdeithas gyswllt yn gallu trefnu digwyddiadau heb ddilyn polisi a gweithdrefnau'r elusen. Cadarnhaodd yr ymddiriedolwyr y bydden nhw'n rhannu canlyniad yr ymchwiliad hwnnw â ni.

#### Gwersi i elusennau eraill

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusennau sy'n cynnal digwyddiadau ac sy'n cynhyrchu llenyddiaeth roi polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle a sicrhau eu bod nhw'n cymryd camau rhesymol i reoli'r risgiau a chynnal diwydrwydd dyladwy. Gall rhywun â barn ddadleuol gael ei gwahodd i ddigwyddiad elusen i siarad ond bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr fod yn glir ynghylch sut y bydd hyn yn hyrwyddo amcanion yr elusen ac mae'n rhaid iddynt gymryd camau gweithredol i reoli'r risgiau.

Mae'r achos hwn yn dangos nad oes angen i ni ddefnyddio ein pwerau bob tro i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn gweithredu i ddiogelu eu helusen rhag niwed.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Ymchwiliadau statudol

Rydym ni'n ystyried cychwyn ymchwiliad statudol os yw'r mater rheoleiddio yn ddifrifol, os oes tystiolaeth neu amheuaeth ddifrifol o gamymddwyn neu gamreoli neu os yw'r risgiau i'r elusen neu i hyder cyhoeddus mewn elusennau yn gyffredinol yn uchel.

Yn ystod ymchwiliad statudol, gallwn ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o'n pwerau cyfreithiol i ddiogelu ac adfer. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i gael gwybodaeth, rhewi cyfrifon banc elusen, penodi Rheolwr Dros Dro neu ohirio neu symud ymddiriedolwyr elusen.

Rydym wedi cynyddu nifer yr ymchwiliadau statudol eleni yn sylweddol: rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, cychwynnwyd ymchwiliadau statudol i **64** o elusennau o'i gymharu â 15 ymchwiliad y flwyddyn flaenorol. Cwblhawyd **23**[2] o ymchwiliadau a **7** achos heb fod yn ymchwiliad yn ystod yr un cyfnod[3].

Y tri mater mwyaf cyffredin a gododd o'r ymchwiliadau statudol a gwblhawyd yn 2013-14 oedd:

- materion cyfrifyddu, gan gynnwys methu â pharatoi neu gyflwyno cyfrifon priodol
- materion yn ymwneud â bod yn ymddiriedolwr
- buddiannau ymddiriedolwyr a gwrthdaro buddiannau

Roedd pryderon am gydymffurfiaeth dogfennau llywodraethol, honiadau o dwyll, pryderon ynghylch tir ac eiddo a phryderon ynghylch masnach a materion masnachol hefyd wedi codi'n aml yn yr ymchwiliadau a gwblhawyd eleni.

## Astudiaeth achos

### Elusen oedd yn destun ymchwiliad statudol - Michael Davies Charitable Settlement

Mae'r Michael Davies Charitable Settlement yn rhoddwr grantiau gydag amcanion elusennol cyffredinol. Methodd yr elusen â chyflwyno Adroddiadau Blynyddol Ymddiriedolwyr a Chyfrifon a Ffurflenni Blynyddol am y blynyddoedd ariannol yn diweddu 2010, 2011 a 2012. Roedd yn destun ymchwiliad dosbarth ar 11 Tachwedd, ar ôl methu ag ymateb i nodiadau atgoffa wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur a rhybudd terfynol yn gofyn iddyn nhw gyflwyno'r dogfennau oedd yn eisiau.

Yn y diwedd roedd yr elusen wedi ffeilio cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn diweddu Ebrill 2010, 2011 a 2012 ar 26 Tachwedd 2013. Roedd yr elusen hefyd wedi ffeilio'r dogfennau perthnasol am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben Ebrill 2013, gan sicrhau eu bod nhw wedi bodloni eu rhwymedigaethau adrodd cyfreithiol ar gyfer 2013 cyn y dyddiad cau.

Roedd yr ymddiriedolwyr wedi ein hysbysebu, er i'r elusen gyfarwyddo eu cyfrifwyr, roedden nhw heb ddarparu'r dogfennau gofynnol erbyn y dyddiad cau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod dibenion yr elusen wedi cael eu bodloni a bod y cronfeydd wedi cael eu dosbarthu i ystod eang o sefydliadau ariannol. Roedd y cwmni cyfrifyddu oedd yn gweithredu ar ran yr elusen wedi nodi mai eu diffyg gweithredu nhw oedd wedi arwain at y diffyg.

Daethom i'r casgliad fod yr ymddiriedolwyr heb fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i ffeilio gwybodaeth cyfrifyddu gyda'r Comisiwn. Roedd camreoli a chamymddwyn yng ngweinyddiad yr elusen a thorrwyd eu dyletswyddau cyfreithiol. Ar ôl craffu ar y cyfrifon, rhoddwyd arweiniad i'r ymddiriedolwyr ei ystyried wrth baratoi cyfrifon yn y dyfodol.

***O ganlyniad i'n hymchwiliad dosbarth, rydym wedi sicrhau bod mwy na £29 miliwn o gronfeydd elusennol wedi'u cyfrif amdanynt bellach yn y cyfrifon a gyhoeddir ar y gofrestr elusennau ar-lein.***

2. Mae'r ffigur hwn yn ymwneud â chwblhau ymchwiliadau safonol mewn achos, mae ymchwiliad yn dod i ben yn ffurfiol pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiad ymchwiliad.

3. Cyn adolygu ac ad-drefnu strategol y Comisiwn yn Rhagfyr 2011, roedd tîm ymchwiliadau'r IAE hefyd wedi cynnal achosion cydymffurfiaeth reoleiddiol; roedd y rhain yn ymchwiliadau oedd yn llai difrifol nag ymchwiliadau statudol. Nid yw unrhyw ymchwiliadau achosion cydymffurfiaeth reoleiddiol newydd wedi cael eu cychwyn ers Rhagfyr 2011, ond mae rhai a gychwynnodd cyn yr ad-drefnu yn parhau.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Cup Trust - diweddariad

Roedd un o'r achosion mwyaf proffil uchel eleni yn ymwneud â'r Cup Trust, elusen y cychwynnwyd ymchwiliad statudol iddi yn Ebrill 2013, i ymchwilio i bryderon parhaus am gynllun Cymorth Rhodd yr elusen a'r niwed posibl i ffydd a hyder cyhoeddus. Ar ôl cychwyn yr ymchwiliad, penodwyd Rheolwr Dros Dro i reoli'r elusen a'i materion. Cymerwyd y camau hyn yn syth ar ôl i ni gael gwybodaeth newydd gan HMRC am yr elusen a ychwanegodd at ein pryderon cynyddol am ei gweinyddiad a'i rheolaeth. Roedd yr ymddiriedolwr wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) i adolygu'r penderfyniad i gychwyn ymchwiliad ac apelio yn erbyn penodi'r Rheolwr Dros Dro; cafodd y ddau eu gwrthod gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Hydref 2013 ac yna yn Ionawr 2014 gwrthododd roi caniatâd i'r ymddiriedolwr apelio yn erbyn y penderfyniadau i'r Uwch Dribiwnlys. Fodd bynnag, yn Chwefror 2014, rhoddodd yr Uwch Dribiwnlys ganiatâd i'r ymddiriedolwr apelio yn erbyn penodi'r Rheolwr Dros Dro. Roedd yr ymddiriedolwr yn llwyddiannus yn ei gais am wrandawiad llafar o'r mater lle y bydd sail yr apêl yn cael ei phenderfynu hefyd. Nid yw dyddiad y gwrandawiad wedi'i benderfynu eto.

## The Dove Trust - diweddariad

Eleni, penodwyd Rheolwr Dros Dro i ymgymryd â'r gwaith o reoli'r Dove Trust, elusen sy'n rhedeg y wefan rhoi ar-lein CharityGiving. Ar ôl ystyried yn ofalus ac ymgynghori â ni, penderfynodd y Rheolwr Dros Dro atal y wefan dros dro er mwyn diogelu'r arian a godwyd gan y cyhoedd ac atal addunedau elusennol pellach rhag cael eu gwneud tra bo'r ymchwiliad i'r elusen a gwaith y Rheolwr Dros Dro yn parhau.

Rai misoedd yn ddiweddarach, daeth y Rheolwr Dros Dro i'r casgliad bod tua £500,000 ar gael ar y pryd i'w ddosbarthu i dros 1,800 o elusennau ac achosion da yr oedd arian yn daladwy iddynt gan Dove Trust. Ym mis Rhagfyr, gofynnwyd i'r llys benderfynu sut y dylai'r Rheolwr Dros Dro ddosbarthu'r cronfeydd yn gyfreithiol i'r rhai yr oedd ar yr elusen arian iddynt. Roedd hyn oherwydd bod sawl gwahanol ymagwedd y gallai'r Rheolwr Dros Dro fod wedi'i mabwysiadu ac roedd angen bod yn ofalus a sicrhau bod yr arian yn cael ei rannu'n deg ac yn briodol. Roedd y Comisiwn a'r Rheolwr Dros Dro am i'r Rheolwr Dros Dro ddosbarthu'r arian mor gyflym â phosibl. Ond yn wyneb cymhlethdod yr elusen a'r materion cyfraith ymddiriedolaeth dan sylw, dim ond y llys all benderfynu ar yr ymagwedd fwyaf teg a chyfartal ar gyfer dosbarthu'r arian sydd ar gael. Gofynnwyd i'r llys ddelio â hyn cyn gynted â phosibl.

Ym mis Mawrth 2014, yn dilyn gwrandawiad cyfarwyddo, dywedodd y llys y byddai cyfle gan y rhai a effeithiwyd i gyflwyno tystiolaeth i'r llys i gefnogi'r ymagwedd arbennig at ddosbarthu'r arian. Cynhaliwyd gwrandawiad llawn ar 3 Gorffennaf 2014.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Gweithio gydag asiantaethau eraill

Rydym ni'n rheoleiddiwr sifil sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith elusennau. Nid ein rôl ni yw ymchwilio i droseddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn cydweithio'n agos ag asiantaethau'r llywodraeth a rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys yr heddlu.

Er enghraifft, mae ein gwaith weithiau'n datgelu tystiolaeth o droseddoldeb neu bryderon y dylai rheoleiddiwr arall ymchwilio iddynt. Yn yr un modd, bydd asiantaethau eraill yn aml yn cael hyd i dystiolaeth o bryderon ynghylch sut mae ymddiriedolwyr yn rheoli eu helusennau sy'n cael eu cyfeirio atom ni.

Rydym yn cydweithio'n arbennig o agos â'r Heddlu, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO), yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol newydd (y mae gwaith yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol wedi symud iddi), Action Fraud, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gynt), y Gwasanaeth Ansolfedd, Llywodraeth Cymru, Ofsted a'r Adran Addysg, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac eraill. Eleni, cyfnewidiwyd gwybodaeth ag asiantaethau eraill drwy'r porth statudol ffurfiol **1,633** o weithiau.

### Y Memorandwm Dealltwriaeth newydd â HMRC

Eleni, diweddarwyd ein Memorandwm Dealltwriaeth â HMRC. Mae hyn yn gwneud ymrwymiad o'r newydd i:

- hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o'n cyfrifoldebau unigol
- hyrwyddo cydweithredu rhyngom
- sicrhau bod y mesurau diogelwch angenrheidiol yn eu lle ar gyfer ymchwilio effeithiol a chyfenwid gwybodaeth er mwyn atal, canfod a datrys camddefnydd neu gamreoli wrth weinyddu elusennau a chronfeydd elusennol
- sicrhau ymgynghori a chydweithredu priodol ar faterion o ddiddordeb i'r ddwy ochr
- hwyluso gweithio ar y cyd os oes problemau ynghylch rhannu budd rheoleiddio

Rydym ni wedi cytuno i weithio'n gydweithredol ac yn rhagweithiol gyda'n gilydd i adnabod elusennau y mae gan HMRC bryderon amdanynt: addasrwydd unigolion i fod yn rhan o'r elusen; ymddygiad ymddiriedolwyr o ran rheolaeth ariannol elusen; neu arwyddion eraill o broblemau camddefnydd neu gamreoli pwysig. Mae'r Memorandwm yn ymrwymo i ymgysylltu â staff yn rheolaidd ar lefel strategol a weithredol ac ar lefel polisi a chynnig cyfleoedd am secondiad a chysgodi.

# Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli elusennau

## Adrodd am ddigwyddiadau difrifol

Mae dyletswydd gan ymddiriedolwyr elusen i roi gwybod i ni am ddigwyddiadau difrifol cyn gynted ag y maent yn eu hamau. Mae digwyddiadau difrifol yn cynnwys, er enghraifft, twyll, lladrad neu'r elusen yn colli swm sylweddol o arian mewn ffordd arall; cysylltiadau â therfysgaeth; amheuon, honiadau ac achosion o gamddefnyddio neu gam-drin buddiolwyr agored i niwed.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusennau ffeilio cyfrifon (y rhai sydd ag incwm o dros £25,000) gadarnhau hefyd, ar eu Ffurflen Flynyddol, nad yw'r elusen wedi cael unrhyw ddigwyddiadau difrifol neu faterion eraill y dylent fod wedi cael eu dwyn at ein sylw, ond ni wnaethpwyd hynny.

Mae adroddiadau digwyddiadau difrifol yn ffordd bwysig i ni fel rheoleiddiwr o adnabod ac asesu natur a graddfa'r risgiau sy'n wynebu elusennau. Rydym yn asesu pob adroddiad o ddigwyddiad difrifol sy'n cael ei gyflwyno i ni yn ofalus er mwyn penderfynu pa gamau, os o gwbl, y mae angen i ni eu cymryd fel rheoleiddiwr. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i ni weithredu ein hunain, ond yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn gwneud yn siŵr bod ymddiriedolwyr yn ymdrin â'r digwyddiad yn briodol ac yn gyfrifol, a'u helpu i sicrhau bod yr elusen wedi'u diogelu yn y dyfodol. Eleni, roedd elusennau wedi adrodd am **1,280** o ddigwyddiadau difrifol i ni.

### Astudiaeth achos - adrodd am ddigwyddiad difrifol

**Elusen anifeiliaid**

Roedd trysorydd yr elusen wedi cyflwyno adroddiad digwyddiad difrifol yn codi pryderon am dwyll honedig gan gadeirydd yr elusen. Roedd gan y trysorydd amheuon nad oedd y cadeirydd yn bancio'r holl arian parod a sieciau roedd yn eu derbyn ar ran yr elusen. Roedd y trysorydd, oedd yn un o dim ond dau ymddiriedolwr heb wrthdaro buddiannau ar fwrdd yr elusen, wedi rhoi gwybod i'r heddlu am y mater, ond nid oedd wedi gweithredu i ddiogelu'r elusen yn y cyfamser. Roedden ni'n bryderus bod posibilrwydd y gallai'r elusen golli rhagor o arian a chafodd yr achos ei gyfeirio at y tîm gweithrediadau.

Roedden ni wedi cydweithio â'r heddlu lleol a'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod camau brys yn cael eu cymryd i ddiogelu'r elusen rhag colledion pellach. Cafodd y mater ei ddatrys pan gychwynnodd yr heddlu ymchwiliad troseddol ac ymddiswyddodd y cadeirydd. Rhoddwyd canllawiau rheoleiddio i'r ymddiriedolwyr oedd yn weddill, gan esbonio sut y dylen nhw wella rheolaethau ariannol mewnol yr elusen i osgoi problemau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

# Hyrwyddo cydymffurfiaeth - canllawiau ar-lein a rhybuddion rheoleiddio

***Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen gydymffurfio â'r gyfraith wrth redeg eu helusennau. Mae ein canllawiau ar-lein yn eu helpu i wneud hynny. Mae'n esbonio, mewn iaith glir a thrwy ddefnyddio enghreifftiau, beth mae'r gyfraith yn ei ddisgwyl ganddynt.***

Mae darparu canllawiau ar-lein yn seiliedig ar y gyfraith elusennau yn rhan bwysig o'n rôl fel rheoleiddiwr. Disgwyliwn i bob ymddiriedolwr ddefnyddio ein canllawiau wrth wneud penderfyniadau ar ran eu helusennau. Eleni, datblygwyd a diweddarwyd canllawiau mewn amrywiaeth o feysydd.

## Mynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau

Gall gwrthdaro buddiannau mewn elusennau tanseilio'n ddifrifol ffydd a hyder cyhoeddus. Mae ein gwaith achos yn dangos, yn anffodus, bod ymddiriedolwyr yn aml yn methu ag adnabod gwrthdaro buddiannau a'u hatal rhag effeithio ar wneud penderfyniadau. Mae hyn yn rhoi asedau ac enw da'r elusen mewn perygl.

Mae ein canllawiau wedi'u diweddaru yn egluro, wrth wneud penderfyniadau ar ran eu helusen, bod rhaid i ymddiriedolwyr weithredu dim ond er lles gorau'r elusen - waeth beth fo'u rolau, gweithgareddau neu ddiddordebau allanol.

Yn yr achosion mwyaf difrifol o wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch, dylai ymddiriedolwyr ddileu'r gwrthdaro buddiannau. Os nad yw'r gwrthdaro yn cael ei ddileu mae'n rhaid ei adnabod yn briodol a'i drin mewn ffordd sy'n ei atal rhag effeithio ar allu ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau.  Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw ymddiriedolwyr yn cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau am faterion lle mae gwrthdaro buddiannau ganddynt.

Mae ein canllawiau newydd hefyd yn egluro bod gan ymddiriedolwyr unigol gyfrifoldeb personol dros adnabod a datgan unrhyw wrthdaro buddiannau a all fod ganddynt.

## Canllawiau ar waddolion parhaol

Yn Ionawr 2014, daeth Rheoliadau newydd i rym yn caniatáu i ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau â gwaddol parhaol fabwysiadu ymagwedd cyfanswm enillion at fuddsoddiadau heb geisio ein cymeradwyaeth ni ymlaen llaw. Yn achos elusennau â gwaddol parhaol, mae mabwysiadu ymagwedd cyfanswm enillion yn golygu trin yr holl enillion buddsoddi fel un swm, yn hytrach na'u labelu naill ai fel cyfalaf neu incwm.

Mae ein canllawiau ar y Rheoliadau yn esbonio y gall elusennau sy'n mabwysiadu'r pŵer newydd ddyrannu'r cyfanswm enillion yn y ffordd y maen nhw'n teimlo bydd yn hyrwyddo nodau eu helusen orau nawr ac yn y dyfodol. Cyhoeddwn ganllawiau penodol oherwydd gwyddwn fod y maes yn gymhleth a bydd rhaid i nifer o ymddiriedolwyr gael trosolwg o'r rheolau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn os ydynt yn ymarfer y pŵer newydd.

# Hyrwyddo cydymffurfiaeth

## Esbonio ein polisi ar adferiad

Eleni, cyhoeddwyd ein polisi ar adfer eiddo a gollwyd i elusennau oherwydd achosion difrifol o dorri ymddiriedaeth. Mae ein polisi yn cydnabod na ddylai pobl gael eu rhwystro rhag gwirfoddoli fel ymddiriedolwyr oherwydd yr ofn y gallant fod yn gyfrifol yn bersonol ac yn ariannol pan fydd colledion yn codi o ganlyniad i weithredoedd gonest a rhesymol.

Ond mae hefyd yn egluro bod dyletswydd o ofal gan ymddiriedolwyr tuag at eu helusen a'u heiddo, sy'n golygu bod rhaid iddynt ymateb yn briodol pan fydd colledion yn digwydd. Dylai hyn gynnwys ystyried adennill yr arian a gollwyd i'r elusen yn dilyn ymddygiad bwriadol neu ddi-hid. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gymryd camau i adennill yr arian. Mae ein polisi yn egluro os yw ymddiriedolwyr yn methu â gweithredu, gallwn ystyried cymryd camau rheoleiddio i sicrhau eu bod nhw'n cymryd y camau priodol. Mewn achosion eithriadol, lle na fydd neu ni all ymddiriedolwyr weithredu, byddwn yn ystyried dwyn achos gorfodi i adennill y colledion i'r elusen.

## Rhybuddion rheoleiddio

Cyhoeddwn rybuddion rheoleiddio pan fyddwn yn ymwybodol, drwy ein gwaith achos byw, neu drwy sganio'r gorwel, o risgiau sylweddol sy'n codi neu feysydd a allai effeithio ar elusennau eraill a'u gweithrediadau. Mae'r rhybuddion yn codi ymwybyddiaeth o'r risg ac yn darparu cyngor ynghylch sut y dylai pobl ymateb. Eleni, cyhoeddwyd 10 rhybudd, yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau megis cyngor cyffredinol ar roi'n ddiogel i ymddiriedolwyr a'r cyhoedd; sgamiau rhoi; risgiau gwneud trefniadau i arwyddo cytundebau tenantiaeth a manteisio ar ryddhad trethi busnes; a rhybuddion ar gyfer ymddiriedolwyr elusennau ac apeliadau elusennol sy'n trefnu neu'n cymryd rhan mewn confois cymorth dyngarol i helpu'r rhai a effeithir gan yr argyfwng yn Syria.

### Sgam rhoddion elusennol

Ym Mehefin 2013, rhybuddiwyd elusennau am sgam yn ymwneud â chardiau credyd a gafwyd drwy dwyll. Yn y sgam, a ddatgelwyd gan yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol erbyn hyn), roedd twyllwr yn rhoi gwybod i elusen y bydd ef neu hi yn rhoi swm mawr o arian ar yr amod bod yr elusen yn anfon hanner y rhodd i elusen benodedig arall sydd, mewn gwirionedd, yn gyfrif banc personol y twyllwr. Mae'r taliad i'r elusen yn cael ei wneud drwy ddefnyddio cerdyn credyd wedi'i gyfaddawdu neu ei ddwyn. Pan fydd cyhoeddwr y cerdyn yn canfod y twyll ac yn adalw'r arian, mae'r elusen yn atebol am y swm llawn. Mae'r elusen yn ddiarwybod yn rhan o sgam gwyngalchu arian.

# Hyrwyddo cydymffurfiaeth

## Syria a Chonfois Cymorth

Mae'r argyfwng yn Syria wedi arwain at drychineb dyngarol ofnadwy. Rydym wedi darparu canllawiau manwl ynghylch sut y gall elusennau a'r cyhoedd helpu'r rhai a effeithir yn fwyaf effeithiol. Er enghraifft, cyhoeddwyd rhybudd i gyd-fynd â lansio apêl Syria y Pwyllgor Argyfyngau yn Rhagfyr 2012. Ein cyngor ni oedd y dylid rhoi i elusennau sydd â phrofiad o ddarparu cymorth dyngarol mewn amgylcheddau risg uchel, anniogel a pheryglus a'r rhai sydd â gweithrediadau cymorth parhaus yn Syria neu'r gwledydd cyfagos. Yn Chwefror 2014, cyhoeddwyd rhybudd yn dilyn adroddiadau yn y wasg fod hunanfomiwr Prydeinig amheus yn Syria wedi teithio i'r wlad fel rhan o'r confoi dyngarol. Roedd ein rhybudd yn atgoffa elusennau sy'n trefnu ac yn cymryd rhan mewn confois cymorth elusennol i Syria am y risg o gael eu camddefnyddio at ddibenion anelusennol, gan gynnwys helpu milwyr Prydeinig i deithio i'r ardal. Atgoffwyd y rhai sy'n trefnu confois i gymryd camau arbennig, gan gynnwys cadarnhau bod y cymorth y maen nhw'n ei ddarparu yn cael ei ddefnyddio at ddibenion dyngarol cyfreithlon yn unig, dilysu pob gwirfoddolwr sy'n teithio gyda'r confoi a sicrhau bod y cerbydau yn cael eu harchwilio cyn gadael i sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio i gludo eitemau amhriodol neu anghyfreithlon. Roedd ein rhybudd hefyd yn rhybuddio elusennau sy'n trefnu ac yn cymryd rhan mewn confois y gallan nhw wynebu goruchwyliaeth reoleiddio a chraffu gan y Comisiwn, gan gynnwys ymweliad cydymffurfio.

## Podlediadau ar lywodraethu da

Cyhoeddwn bodlediadau sain sy'n helpu ymddiriedolwyr i ddeall ein canllawiau a gwella dulliau llywodraethu eu helusen. Eleni, cyhoeddwyd cyfres o bodlediadau newydd yn seiliedig ar y senarios cyffredin sy'n codi yn ein gwaith achos, i helpu ymddiriedolwyr i ddysgu'r gwersi. Er enghraifft, roedd un o'n podlediadau yn adrodd hanes elusen lle roedd rheolaethau ariannol gwael yn caniatáu i ymddiriedolwr ddwyn arian; roedd un arall yn esbonio beth all mynd o'i le pan fydd gwrthdaro buddiannau heb ei osgoi neu ei reoli'n briodol.

## Rheoleiddio dwyieithog

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddiwr dwyieithog. Mae ein gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a hefyd ein prif ganllawiau, ffurflenni ar-lein a'r cylchlythyr chwarterol i ymddiriedolwyr elusen, Newyddion y CE. Rydym yn hapus i ohebu ag elusennau neu aelodau'r cyhoedd yn Gymraeg, a phan fyddant yn ein ffonio ni, mae pobl yn cael dewis siarad â siaradwr Cymraeg.

# Hyrwyddo cydymffurfiaeth

## Gweithio gyda phartneriaid i wella dulliau llywodraethu

Gweithiwn gyda phartneriaid ar draws a'r tu hwnt i'r byd elusennol i'n helpu i gyrraedd elusennau gyda chanllawiau a chyngor ar lywodraethu da. Nod tymor hir y gwaith hwn yw gwella cydymffurfiaeth elusennau â'u rhwymedigaethau cyfreithiol drwy godi safonau llywodraethu, fel bod llai o elusennau yn dioddef y math o gamreoli sy'n tanseilio ffydd gyhoeddus ac yn gofyn i ni ymyrryd.

### Cymeradwyo systemau asesu ansawdd elusennau

Cymeradwywn systemau ansawdd drwy ddefnyddio'r safonau sy'n cael eu gosod gan gyrff mantell a chymorth. Gall elusennau gynnwys y safonau o fewn eu dull llywodraethu ac yna gwneud cais i gael eu profi yn eu herbyn. Rydym yn cymeradwyo safonau wedi'u hasesu'n gynhwysfawr ac yn drwyadl yn unig sydd â gofynion cyfreithiol llywodraethu wrth eu gwraidd. Felly mae elusen sy'n bodloni safon gymeradwy y Comisiwn yn gallu rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, cyllidwyr a chomisiynwyr gwasanaeth ei bod yn cael ei llywodraethu'n dda a'i bod yn effeithiol.

Ar hyn o bryd mae 9 system ansawdd gymeradwy gennym, ac o'r rhain cafodd 7 eu hail-gymeradwyo neu eu cymeradwyo o'r newydd eleni. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai a ddatblygwyd gan Home-Start UK, yr elusen cymorth i'r teulu sy'n gweithio gyda dros 300 o aelodau lleol, Age UK, UKCF, y corff mantell ar gyfer sefydliadau cymunedol lleol, a'r elusen iechyd meddwl Mind.

### Prosiectau adolygu elusennau

Ceisiwn weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau i sefydlu prosiectau adolygu elusennau gyda themâu sydd o ddiddordeb i reoleiddio. Mae'r prosiectau hyn yn dibynnu ar elusennau yn gwirfoddoli i gael adolygiad pro bono gan arbenigwyr wedi'i ddarparu gan ein partneriaid prosiect, o blith eu haelodaeth fel arfer. Mae'r casgliadau dienw hyn yn ein helpu i ddeall y risgiau llywodraethu a wynebir gan elusennau. Eleni, buom ni'n gweithio ar brosiect gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) a fu'n edrych ar ddulliau ymddiriedolwyr o ddatblygu, gweithredu ac adolygu strategaeth eu helusen. Daeth y prosiect i'r casgliad fod elusennau sydd â strategaethau clir yn eu lle yn gallu wynebu eu heriau yn well. Yn anffodus, roedd yr adroddiad hefyd wedi tynnu sylw at y gwendidau llywodraethu sydd i'w gweld mewn nifer o elusennau, yn aml wedi'u cysylltu â dealltwriaeth wael ymysg yr ymddiriedolwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau a diffyg sgiliau ariannol ar fyrddau elusennau. Rydym wrthi'n ystyried ein hymateb i gasgliadau ICAEW ar hyn o bryd.

# Hyrwyddo cydymffurfiaeth

## Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2013

Mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr yn ymgyrch blynyddol i hyrwyddo gwaith ymddiriedolwyr elusen ac annog pobl i ystyried gwirfoddoli fel ymddiriedolwyr. Mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys ystod eang o elusennau a sefydliadau eraill, gan gynnwys Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y Sefydliad Codi Arian, Cynghrair Elusennau Bach, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a Swyddfa Archwilio Cymru. Ceisiwn annog elusennau i ddefnyddio'r ymgyrch i recriwtio ymddiriedolwyr newydd, rhoi hyfforddiant i ymddiriedolwyr presennol, neu'n syml, i ddiolch i'w hymddiriedolwyr am eu cyfraniad.

Roedd Wythnos Ymddiriedolwyr 2013 yn llwyddiant mawr, gyda dros 50 o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar draws y DU, yn amrywio o seminarau wedi'u trefnu gan gwmnïau cyngor proffesiynol i 'nosweithiau gwib-baru' yn paru pobl a hoffai wirfoddoli fel ymddiriedolwyr ag elusennau sy'n recriwtio. Cafodd yr ymgyrch sylw helaeth yn y cyfryngau, gan gynnwys sawl erthygl papur newydd cenedlaethol a dros 40 o erthyglau rhanbarthol.

Cafwyd cymorth mawr hefyd gan Aelodau Seneddol, a daeth nifer ohonynt i'r derbyniad a drefnwyd lle cafodd ASau gyfle i gwrdd ag ymddiriedolwyr yn eu hetholaeth. Anerchwyd y digwyddiad gan y Gweinidog dros Gymdeithas Sifil, Nick Hurd, ac ymddiriedolwr ifanc, Smita Jalaf.

## Ymgyrch i gael ymddiriedolwyr mwy gwybodus

Bydd pobl yn ymuno â byrddau am y rhesymau gorau ond yn aml nid yw eu hymrwymiad, eu hegni a'u gwrthrychedd yn cael eu defnyddio i'r eithaf yn eu sefydliadau oherwydd mae eu gwybodaeth o rôl a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr yn wael.

Ar y cyd â'r Cass Centre for Charity Effectiveness a'r Cranfield Trust rydym yn datblygu cynghrair o gyrff sector i gynnal ymgyrch ar y cyd yn targedu ymddiriedolwyr. Y nod yw sicrhau bod gan bron pob ymddiriedolwr, ymhen tair blynedd, ddealltwriaeth glir o'i rôl a'i gyfrifoldebau, bod ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod angen iddyn nhw gael at gyngor ac arweiniad, a gwybod ble i fynd i gael yr wybodaeth i'w helpu yn eu rôl. Gallwn gyflawni'r nod dim ond trwy gydweithio'n agos ag amryw o sefydliadau yn y sector elusennol a thu hwnt.

## Canolbwynt newydd ar gyfer canllawiau ar eiddo

Gall rheoli eiddo fod ymysg cyfrifoldebau mwyaf heriol ymddiriedolwyr. Dechreuwyd prosiect y flwyddyn hon gyda phedwar partner cychwynnol i wella gallu ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau yn y maes hwn drwy ddatblygu un canolbwynt ar gyfer arweiniad ar ddyletswyddau ymddiriedolwyr wrth brynu, rheoli, is-brydlesu ac o bosib hyd yn oed gwaredu eiddo. Er y gallwn ddarparu gwybodaeth ar fframwaith cyfreithiol elusennau ynghylch trafodion eiddo, mae eraill mewn sefyllfa well i gynnig cymorth ymarferol i elusennau pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am eu heiddo. Y pedwar partner cychwynnol yw: Action with Communities in Rural England (ACRE), Community Matters, the Ethical Property Foundation a Locality.

# Goruchwylio a hwyluso gwaith elusennau

## Gwaith achos Cyswllt Cyntaf

***Mae'r rhan fwyaf o waith achos y Comisiwn yn cael ei wneud gan ein tîm Cyswllt Cyntaf. Mae'r tîm yn derbyn yr holl ohebiaeth gychwynnol gan elusennau ac aelodau'r cyhoedd.***

Eleni roedd y tîm wedi delio â **48,274** o negeseuon e-bost, **88,822** o alwadau ffôn a **9,681** o lythyrau; cafodd **94%** o'r materion a godwyd yn y cysylltiadau hyn eu datrys o fewn Cyswllt Cyntaf, heb orfod eu cyfeirio at dimau eraill yn y Comisiwn.

Mae'r gwaith yn eang ac yn cynnwys gwaith achos caniatâd (gweler isod), yn ogystal â phryderon llai difrifol am reolaeth elusennau. Mae achosion difrifol yn cael eu cyfeirio naill ai at dîm gweithrediadau'r Comisiwn neu'r tîm asesu cyn-ymchwiliad.

### Enghraifft o achos Cyswllt Cyntaf - The Fire Fighters Charity

Mae'r elusen yn bodoli i wella ansawdd bywyd cyn ymladdwyr tân ac ymladdwyr tân presennol, staff y gwasanaeth tân a'u teuluoedd, drwy gynnig amryw o wasanaethau. Mae'n elusen fawr gydag incwm o tua £8 miliwn. Roedd yr elusen wedi cysylltu â ni oherwydd roedd yr ymddiriedolwyr am ehangu ei hamcanion er mwyn iddi allu cynnig ei gwasanaethau i'r nifer cynyddol o sifiliaid oedd wedi ymuno â rhaglenni gwirfoddol Gwasanaethau Tân ac Achub unigol. Mae gwirfoddolwyr yn cyflawni dyletswyddau i helpu i atal tân, diogelwch neu ymateb i achosion brys, megis gosod larymau tân, rhoi anerchiadau ar ddiogelwch tân i blant ysgol, cefnogi rhaglenni ymgysylltu gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog a mynychu digwyddiadau yn y gymuned.

Ar ôl ystyried y cais, roedd Cyswllt Cyntaf yn gallu cynghori bod dogfen lywodraethol yr elusen eisoes yn cydnabod y nifer fach o wirfoddolwyr oedd yn gweithio fel Ymladdwyr Tân, ond nid oedd y gwirfoddolwyr oedd yn cyflawni gweithgareddau eraill yn gallu manteisio ar wasanaethau'r elusen. Felly roedd rhaid i'r elusen gael ein caniatâd ysgrifenedig ni ymlaen llaw i newid ei dogfen lywodraethol ac ehangu ei dosbarth o fudd.
Ar ôl ystyried cais yr elusen ac unrhyw effaith bosibl ar ei buddiolwyr presennol, roedden ni'n gallu cymeradwyo'r newid gan olygu y gallai'r elusen gynnig ei gwasanaethau i wirfoddolwyr y Gwasanaethau Tân ac Achub.

# Goruchwylio a hwyluso gwaith elusennau

## Ein gwaith achos caniatâd

***Mewn nifer o sefyllfaoedd, mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr geisio ein caniatâd cyn cymryd camau arbennig. Yna byddwn yn penderfynu a yw'r cynnig er lles yr elusen, ei buddiolwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r oruchwyliaeth hon yn sicrhau bod eiddo'r elusen wedi'i ddiogelu a bod gwrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli'n briodol.***

Ochr yn ochr â'r Uchel Lys, mae awdurdodaeth gennym i arfer pwerau ar gyfer gweinyddu elusennau. Mae pwerau gennym i benodi ymddiriedolwyr, rhoi mathau arbennig o ganiatâd a gwneud cynlluniau, sy'n cynnwys dogfennau cyfreithiol sy'n rhoi caniatâd ffurfiol i newid neu ddisodli dogfen lywodraethol elusen.

Mae'r gwaith hwn yn chwarae rôl bwysig yn ein goruchwyliaeth o elusennau. Er enghraifft, os oes posibilrwydd y gallai ymddiriedolwr gael budd personol o drafodiad, mae'n rhaid i ni fodloni ein hunain bod digon o fudd i'r elusen i gyfiawnhau rhoi budd o'r fath i'r ymddiriedolwr. Os yw tir i'w werthu am lai na phris y farchnad, rydym ni am ddeall pam bod hyn yn angenrheidiol a sicrhau bod gwerthu'r tir er lles gorau'r elusen. Ac os gofynnir i ni roi caniatâd ar gyfer achos llys, mae'n rhaid i ni fodloni ein hunain bod yr ymddiriedolwyr wedi ystyried cyd-drafod neu gyfryngu er mwyn osgoi ymgyfreithiad costus neu ddiangen.

Mae'r gwaith hwn yn ategu ac yn cefnogi ein gwaith achos cydymffurfio (gweler tudalen 15).

Mae llawer o'r gwaith achos hwn yn cael ei gwblhau gan ein timau gweithrediadau. Eleni, roedd y timau wedi cwblhau **1,082** o achosion caniatâd gweithredol a chychwynnwyd **887** o achosion newydd.

## Astudiaeth achos

### Y llys yn cadarnhau cynllun Bath Rec

Amcanion maes chwarae Caerfaddon yw cynnal darn o dir yng Nghaerfaddon ar gyfer adloniant, gan gynnwys ar gyfer chwaraeon, ffeiriau, sioeau, arddangosfeydd a gweithgareddau eraill.

Ym mis Mawrth, roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi penderfynu o blaid cynllun ar gyfer yr elusen a oedd, ymysg pethau eraill, yn disodli'r ymddiriedolwr, sef yr awdurdod lleol, â chorff annibynnol newydd o ymddiriedolwyr a allai wneud penderfyniadau heb unrhyw wrthdaro am y trefniadau prydles yn y dyfodol. Cyflwynwyd apêl yn erbyn ein cynllun yng Ngorffennaf 2013.

Yn y penderfyniad, cytunodd y barnwr ein bod ni'n iawn i sefydlu'r cynllun a bod y cynllun wedi'i wneud yn unol â'r broses briodol. Derbyniodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod y Cynllun yn ddefnydd cymesur o bwerau'r Comisiwn ar gyfer elusen sydd wedi cael problemau llywodraethu yn y gorffennol. Gwaeth y barnwr nifer o ychwanegiadau a newidiadau i'r cynllun, ac mae rhai ohonynt (ar adeg ysgrifennu) yn destun apêl a gyflwynwyd gan yr ymddiriedolwyr i'r Uwch Dribiwnlys.

***"Bu diddordeb mawr erioed yn lleol yn nyfodol y Rec, sy'n gyfleuster hamdden pwysig i bobl Caerfaddon. Rydym ni'n hapus bod y Tribiwnlys wedi penderfynu o blaid ein hymagwedd wrth wneud y cynllun hwn ac rydyn ni'n ffyddiog y bydd yr ymddiriedolwyr yn gallu symud ymlaen a gwella'r defnydd o'r ased gwerthfawr hwn i'r gymuned."***

*Kenneth Dibble, Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn y Comisiwn Elusennau*

# Goruchwylio a hwyluso gwaith elusennau

## Astudiaeth achos

### Gwneud cais am ganiatâd i dalu ymddiriedolwr

**Yr Elusen**

The Chartered Institute of Taxation (CIOT) yw'r prif gorff proffesiynol yn y DU ar gyfer ymgynghorwyr sy'n delio â phob agwedd ar drethu. Mae'n rhoi budd i'r cyhoedd drwy ddilyn ei ddiben pennaf sef hyrwyddo addysg dreth gyda'r prif nod o gael system dreth fwy effeithlon a llai cymhleth i bawb. Mae ei sylwadau a'i argymhellion ar faterion treth yn cael eu gwneud dim ond er mwyn cyflawni'r nod hwnnw; ac mae'n hollol anwleidyddol. Mae'r 17,000 o aelodau Ymgynghorwyr Treth Siartredig CIOT yn ddarostyngedig i safonau a chodau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad gan gynnwys 'Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas â Threth', a gymeradwyir gan HMRC.

**Y Cefndir**

Roedd yr elusen wedi gwneud cais am ein caniatâd i gyflogi ymddiriedolwr elusen mewn rôl uwch. Esboniwyd bod ymgyrch recriwtio cychwynnol wedi bod yn aflwyddiannus a bod yr elusen wedi cael ei chynghori, oni bai bod rhywbeth yn newid, na fyddai'r ymddiriedolwyr yn debygol o allu recriwtio unrhyw ymgeiswyr newydd yn y tymor byr. Yna roedd ymddiriedolwr wedi cynnig ei hun ar gyfer y swydd. Penderfynodd y panel cyfweld, wedi'i gadeirio gan sylwedydd lleyg budd cyhoeddus y Sefydliad fod yr ymddiriedolwr yn bodloni'r gofynion ac y byddai, ar deilyngdod, yn cael ei roi ar y rhestr fer fel ymgeisydd ar gyfer y rôl. Penderfynodd yr ymddiriedolwyr y byddai er lles gorau'r elusen i'w gyflogi.

**Y materion rheoleiddio**

Roedd rhaid i ni benderfynu a oedd angen i ni roi awdurdod i'r elusen gyflogi'r ymddiriedolwr ac, os felly, a ddylem ni roi awdurdod. Roedd yr olaf yn golygu bod rhaid i ni ystyried a oedd yr ymddiriedolwyr wedi dangos bod yr hyn roedden nhw'n ei gynnig er lles gorau'r elusen.

**Canlyniadau ac effaith**

Sefydlwyd y byddai'n rhaid i ni roi awdurdod ar gyfer y penodiad, oherwydd roedd yr unigolyn yn ymddiriedolwr ac felly mewn sefyllfa o ymddiriedaeth adeg gwneud y penodiad.

Cafodd holl ffeithiau'r achos eu hystyried, gan gynnwys esboniad yr elusen ynghylch addasrwydd yr ymddiriedolwr, gwybodaeth ynghylch sut oedd y broses recriwtio gychwynnol wedi cael ei threfnu a sut y cafodd gwrthdaro buddiannau eu rheoli. Nododd yr ymddiriedolwyr y byddai'r unigolyn dan sylw yn sefyll i lawr o'u rôl fel ymddiriedolwr pe byddai'n cael ei glirio i'w benodi, felly ni fyddai'r ddwy swydd yn gorgyffwrdd. Yn y pen draw roedden ni'n fodlon ei fod er lles gorau'r elusen i gyflogi'r ymddiriedolwr ac felly rhoddwyd y caniatâd a geisiwyd i'r elusen.

**Gwersi ehangach i elusennau**

Ni ddylai unrhyw ymddiriedolwr neu gyn ymddiriedolwr gael budd o'u swydd, oni bai bod hynny wedi'i awdurdodi'n benodol gan y Comisiwn, y llysoedd neu ddarpariaeth yn nogfen lywodraethol yr elusen. Os yw ymddiriedolwr am gael ei gyflogi gan yr elusen mae'n rhaid i'r ddogfen lywodraethol gynnwys darpariaeth sy'n ei awdurdodi neu raid ceisio awdurdod gan y Comisiwn. Mae ymddiswyddo fel ymddiriedolwr i gael swydd gyda'r elusen ddim yn ddigon bob amser; mae'n bosib y bydd angen awdurdod y Comisiwn o hyd.

# Y Rhaglen Ryngwladol

***Mae'r rhan fwyaf o'r 13,000 o elusennau sy'n ymwneud â datblygiad rhyngwladol yn cyflawni eu gwasanaethau gydag elusennau partner lleol neu sefydliadau dielw. Mae ein Rhaglen Ryngwladol yn ceisio hyrwyddo llywodraethu da mewn elusennau ledled y byd er mwyn i'r cyhoedd ym Mhrydain allu teimlo'n hyderus bod eu cyfraniadau yn mynd at ddibenion elusennol.***

Mae'r Rhaglen Ryngwladol yn gweithio mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, drwy ddatblygu perthynas ddwyochrog â llywodraethau partner i'w helpu i roi fframweithiau rheoleiddio effeithiol yn eu lle. Yn ail, mae'n darparu gweithdai a chyngor polisi mewn digwyddiadau rhyngwladol a rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o egwyddorion llywodraethu elusennol da ac mae'n esbonio'r fframwaith rheoleiddio yng Nghymru a Lloegr.

Rhwng 2004 a 2013, cafodd y Rhaglen Ryngwladol ei chyllido'n bennaf gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Ers hynny, mae ei hincwm wedi arallgyfeirio ac mae wedi ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau wedi'u cyllido gan ffynonellau eraill, gan gynnwys llywodraethau Awstralia a Canada a'r Baring Foundation.

## Cymorth dwyochrog

Ers 2004 mae'r Rhaglen Ryngwladol wedi gweithio mewn dros 60 o wledydd ac oherwydd ei henw da rhyngwladol, mae'n fan cyswllt adnabyddus a chydnabyddedig ar gyfer llywodraethau tramor sy'n ceisio cyngor ar reoleiddio Cyrff Anllywodraethol, y rhai sy'n chwilio am gyflwyniad i rôl a swyddogaethau'r Comisiwn, neu gymorth technegol mwy manwl ar ddatblygu ddeddfwriaeth a dulliau rheoleiddio newydd. Fel rhan o'r gwasanaeth, mae'r Rhaglen Ryngwladol wedi croesawu a derbyn cyfartaledd o ddau ymweliad mewnol y mis o ystod eang o wledydd. Roedd ymweliadau yn 2013 yn cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth a Chyrff Anllywodraethol o Dsieina, y Gwlff, Algeria, Malaysia, Fietnam, Ethiopia, De Affrica, yr Unol Daleithiau, Canada, Zambia, Saudi Arabia, Serbia ac Indonesia.

Eleni, mae'r Rhaglen Ryngwladol wedi:

- dechrau prosiect blwyddyn pwysig gyda'r Weinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol yn Bahrain, a fydd yn gweld fframwaith rheoleiddio newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cyrff Anllywodraethol a fydd yn cyfrannu at sector Anllywodraethol cryfach yn y wlad.
- cynghori llywodraeth Qatari ar ddeddfwriaeth i atal camddefnyddio elusennau at ddibenion troseddol. Mae'r gyfraith Sefydliadau Anllywodraethol newydd yn seiliedig, yn rhannol, ar dystiolaeth wedi'i darparu gan y Rhaglen Ryngwladol am rôl a swyddogaethau'r Comisiwn. Roedd y Rhaglen Ryngwladol hefyd wedi helpu Llysgenhadaeth y DU yn Qatar i gyflwyno gweithdy, ac roedd wedi cynnal gweithdy rhanbarthol ar reoleiddio Cyrff Anllywodraethol yn Doha.
- yn dilyn ymlaen o brosiect pedair blynedd yn Indonesia, dechreuodd brosiect dilynol dwy flynedd yn defnyddio arian Llywodraeth Awstralia. Nod y prosiect yw hwyluso arferion gwaith rhwng gwahanol Weinyddiaethau Llywodraeth Indonesia wrth reoleiddio ac ymchwilio i'r camddefnydd o'r sector Cyrff Anllywodraethol gan derfysgwyr. Roedd staff yn Llundain a Taunton wedi cynnal ymweliad mewnol gan swyddogion o Indonesia ym mis Medi lle y trafodwyd cofrestru, y wefan, technegau monitro ac ymchwilio.

# Y Rhaglen Ryngwladol

## Ymgysylltu Rhyngwladol

Mae'r Rhaglen Ryngwladol wedi cydweithio'n agos â'r Tasglu Gweithredu Ariannol rhyngwladol a'i is-gyrff. Mae tasglu yn gorff rhynglywodraethol a leolir ym Mharis, sy'n hyrwyddo mesurau cyfreithiol, rheoleiddiol a gweithredol ar gyfer ymladd gwyngalchu arian, ariannu terfysgwyr a bygythiadau cysylltiedig eraill i uniondeb y system ariannol ryngwladol.

Mae'r Rhaglen Ryngwladol yn cadeirio gweithgor o'r tasglu; mae'r gweithgor yn cynnwys 14 gwlad ac mae'n ceisio cynhyrchu adroddiad byd-eang ar gamddefnyddio Cyrff Anllywodraethol yn ariannol gan derfysgwyr. Disgwylir i'r 180 o wledydd sy'n rhan o'r tasglu gytuno ar yr adroddiad byd-eang yn haf 2014.

Mae'r Rhaglen Ryngwladol hefyd yn eistedd ar Weithgor Galluogi a Diogelu Cymdeithas Sifil y Gymuned o Ddemocratiaethau. Mae'r Grŵp Rhynglywodraethol yn meithrin cydweithrediad ymysg gwladwriaethau, cymdeithas sifil a sefydliadau rhyngwladol i atal, drwy fentrau cadarn, y tuedd byd-eang cynyddol tuag at gyfyngu sefydliadau cymdeithas sifil a lleihau'r lle sydd ganddynt i weithredu drwy ddulliau cyfreithiol. Yn ystod y flwyddyn, roedd y gweithgor wedi nodi nifer o wledydd lle roedd lle cymdeithas sifil dan fygythiad, megis Cenia, Uganda a'r Aifft, a defnyddiodd aelodau'r Gymuned o Ddemocratiaethau eu llysgenadaethau a'u cysylltiadau i lobïo ac atal Llywodraethau rhag pasio cyfreithiau newydd a fyddai'n cyfyngu Cyrff Anllywodraethol a'r gymdeithas sifil ehangach.

# Ffigurau'r flwyddyn hon

Mae gan y Comisiwn 3 Dangosydd Perfformiad Allanol (DPA) lefel uchel i fesur ei berfformiad yn y meysydd busnes allweddol canlynol:

## DPA 1: Economi, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

I bob £1,000 o Incwm Elusennau Cofrestredig, mae costau rhedeg y Comisiwn yn cyfateb i 35c (2012-13: 43c). Y targed oedd sicrhau lleihad ar gostau rhedeg 2012-13, a **chyflawnwyd** hyn.

## DPA 2: Ansawdd Gwaith Achos

Canran gwaith achos y Comisiwn neu ddarnau eraill o waith sydd wedi cael eu hasesu fel rhai derbyniol neu well yw 90% (2012-13: 89%). Y targed oedd 90%, a **chyflawnwyd** hyn.

## DPA 3: Lefel gyffredinol ymddiriedaeth a ffydd y cyhoedd mewn elusennau

Wedi'i seilio ar arolwg annibynnol, ar raddfa o sero (isel) i ddeg (uchel), lefel y ffydd a hyder cyhoeddus yw **6.7** (2012-13: 6.7). Roedd y targed yn seiliedig ar yr amcan statudol o gynyddu ffydd a hyder cyhoeddus ac felly sicrhau cynnydd ar ffigur 2012-13. **Heb newid**

### Cofrestru

**6,661** o geisiadau i gofrestru

**4,968** o geisiadau i gofrestru wedi'u cymeradwyo

**1,331** o Sefydliadau Corfforedig Elusennol wedi'u cofrestru

**23** o geisiadau cofrestru wedi'u gwrthod yn ffurfiol

## Cyswllt Cyntaf

| | |
|---|---|
| **88,822** | o alwadau ffôn i'n canolfan alwadau |
| **48,274** | o e-byst wedi'u cofnodi gyda Chyswllt Cyntaf |
| **9,681** | o lythyrau wedi'u cofnodi gyda Chyswllt Cyntaf |
| **1,280** | o adroddiadau o ddigwyddiadau difrifol |
| **86** | o adroddiadau chwythu'r chwiban |
| **94%** | o gysylltiadau wedi'u datrys o fewn Cyswllt Cyntaf |
| **86%** | o Ffurflenni Blynyddol wedi'u ffeilio o fewn y dyddiad cau |
| **86%** | o gyfrifon blynyddol wedi'u ffeilio o fewn y dyddiad cau |
| **99%** | o'r incwm sector wedi'i gyfrif amdano mewn cyfrifon a ffeiliwyd |

## Y deg ymholiad mwyaf cyffredin mewn galwadau ffôn i Gyswllt Cyntaf

1. Rydyn ni am newid ein gohebydd/cyfeiriad e-bost
2. Sut ydw i'n dechrau elusen?
3. Sut ydw i'n cael cyfrinair?
4. Beth yn union sy'n rhaid i ni ei gyflwyno?
5. Sut ydw i'n cofrestru fel SCE?
6. Sut ydw i'n cwblhau'r Ffurflen Flynyddol ar-lein?
7. Rydw i am gael copi o ddogfen lywodraethol elusen
8. Ble allai i gael hyd i x (ymholiadau llywio'r wefan)
9. Sut ydyn ni'n diweddaru manylion ein hymddiriedolwyr?
10. Beth yw cyfrifoldeb ymddiriedolwyr?

## Y deg mater mwyaf cyffredin mewn e-byst/llythyrau i Gyswllt Cyntaf

1. Newidiadau i ddogfennau llywodraethol
2. Cwynion am elusennau
3. Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr
4. Ymholiadau am dir
5. Cau neu uno elusen
6. Manylion elusennau
7. Sut i gofrestru
8. Ymholiadau tâl
9. Ffurflenni Blynyddol a Chyfrifon
10. Codi arian, masnachu neu fuddsoddiadau

## Timau gweithrediadau

| | |
|---|---|
| **1,865** | Achosion cydymffurfiaeth weithredol a gychwynnwyd |
| **1,972** | Achosion cydymffurfiaeth weithredol a ddaeth i ben |
| **887** | Achosion caniatâd gweithredol a gychwynnwyd |
| **1,082** | Achosion caniatâd gweithredol a ddaeth i ben |
| **318** | Achosion a gyfeiriwyd at y tîm monitro gweithrediadau (rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2014) |

## Y meysydd o bryder cyffredin mwyaf mewn achosion cydymffurfiaeth weithredol

1. Materion a godwyd mewn adroddiadau o ddigwyddiadau difrifol (gweler tudalen 23 i gael rhagor o wybodaeth am adrodd am ddigwyddiadau difrifol)
2. Materion cyfrifyddu
3. Pryderon am ymddiriedolwyr anghymwys
4. Camddefnyddio arian
5. Twyll a lladrad
6. Materion a godwyd mewn adroddiadau chwythu'r chwiban
7. Pryderon am godi arian.

## Gwasanaethau'r Comisiwn a chwynion

| | |
|---|---|
| **627** | o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi'u hymateb iddynt |
| **53** | o gwynion wedi cael sylw gan y Tîm Sicrwydd Busnes[i] |
| **9** | cwyn wedi'u cynnal yn llawn |
| **10** | cwyn wedi'u cynnal yn rhannol |

## Ymchwiliadau a gorfodi

| | |
|---|---|
| **23**[4] | o ymchwiliadau statudol wedi'u cwblhau |
| **7** | ymchwiliad heb fod yn ymchwiliad statudol wedi'u cwblhau |
| **64** | o ymchwiliadau statudol wedi'u cychwyn |
| **87** | o ymchwiliadau yn fyw fel ar 1 Ebrill 2014 |
| **118** | o achosion asesu wedi'u cwblhau |
| **115** | o achosion asesu wedi'u cychwyn |
| **54** | o achosion monitro wedi'u cwblhau |
| **95** | o achosion monitro wedi'u cychwyn |
| **68** | o ymweliadau monitro |
| **540** | defnyddiwyd ein pwerau statudol o weithiau yn ystod ymchwiliadau a gwaith gorfodi |

## Materion mwyaf cyffredin yn yr ymchwiliadau a ddaeth i ben eleni

- materion cyfrifyddu, gan gynnwys methu â pharatoi neu gyflwyno cyfrifon priodol
- materion yn ymwneud â bod yn ymddiriedolwr
- buddiannau ymddiriedolwyr a gwrthdaro buddiannau

4 Mae'r ffigur hwn yn cyfeirio at gwblhau ymchwiliadau safonol mewn achos, mae ymchwiliad yn dod i ben yn ffurfiol pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiad ymchwiliad.

# Ein hymrwymiad i reoleiddio gwell

***Croesawn y cyfle hwn i esbonio'r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau bod ein hymagwedd at reoleiddio yn gymesur. Mae'r Comisiwn yn datblygu i fod yn rheoleiddiwr fwy cadarn; un o ganlyniadau hyn yw y byddwn yn arfer ein pwerau rheoleiddio yn fwy aml.***

Byddwn yn parhau i gael effaith uniongyrchol ar gyfran fach yn unig o elusennau cofrestredig. Er ein bod yn ymrwymedig i wella ein hymagwedd at hyrwyddo cydymffurfiaeth a mynd i'r afael â chamddefnydd difrifol, rydym hefyd yn ofalus i sicrhau nad yw ein dull rheoleiddio yn rhoi baich gormodol neu ddiangen ar elusennau.

Un o'r offer pwysicaf yn ein gwaith rheoleiddio yw'r Ffurflen Flynyddol sydd wedi'i chynllunio i fod yn gymesur. Mae'n ofynnol i elusennau cofrestredig gydag incwm o dros £10,000 a phob SCE i gwblhau Ffurflen Flynyddol. Mae'r Ffurflen Flynyddol yn cael ei hadolygu'n gyson, gan sicrhau ein bod yn casglu'r data y mae ei angen arnom i reoleiddio ac sy'n helpu'r cyhoedd i ddal elusennau i gyfrif, heb roi baich diangen ar elusennau. Eleni, roedd ein hadolygiadau o'r Ffurflen Flynyddol (gweler tudalen 9) wedi ychwanegu cyfres o gwestiynau newydd, gan gynnwys a yw ymddiriedolwyr elusen yn cael eu talu am eu gwaith fel ymddiriedolwyr. Ond yn ogystal ag ychwanegu at y Ffurflen Flynyddol, rydym hefyd wedi dileu'r ffurflen gwybodaeth gryno a arferai fod yn orfodol i elusennau cofrestredig gydag incwm o dros £1m.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet ar ddau gynnig a fyddai'n lleihau'r baich ar ymddiriedolwyr a bydd yn ymgynghori arnynt cyn bo hir. Mae un yn ystyried codi'r trothwyon ariannol er mwyn i ragor o elusennau allu manteisio ar broses symlach, er enghraifft, newid eu hamcanion neu wario gwaddol parhaol. Mae'r llall yn ystyried a ddylai'r trothwy archwilio gael ei godi (£500,000 ar hyn o bryd). Rydym hefyd yn cefnogi gwaith prosiect cyfraith elusennau Comisiwn y Gyfraith. Mae'n ystyried amryw o faterion, a gall rhai ohonynt, gan gynnwys rheoleiddio trafodion tir, arwain at ragor o gynigion dadreoleiddio. Mae Comisiwn y Gyfraith yn disgwyl cyhoeddi ymgynghoriad erbyn diwedd 2014. Byddwn, drwy gydweithio â Swyddfa'r Cabinet lle y bo angen, yn parhau i asesu effaith unigol a chasgliadol y newidiadau a'r cynigion ar gyfer newid uchod.

Roedd y Pwyllgor Dethol Gweinyddu Cyhoeddus (PASC) wedi argymell y dylem weithio gyda Thŷ'r Cwmnïau i gael hyd i ffordd o ddileu dyblygu yng ngofynion ffeilio cwmnïau elusennol. Derbyniwyd hyn mewn egwyddor a chytunwyd i ystyried sut y gellid cyflawni hyn yn amodol ar bryderon ynghylch cost a chymesuredd. Dywedom ni hefyd y byddem ni'n adrodd ar gynnydd. Mae ein prif ffocws yn y maes hwn wedi bod ar ffurf electronig ar gyfer cyflwyno cyfrifon y byddai, os caiff ei gyflwyno ar gyfer elusennau, yn gam pwysig tuag at wneud trefniadau ar gyfer ffeilio ar y cyd. Yn anffodus, mae ein gwaith cychwynnol wedi codi pryderon mawr am ei fforddiadwyedd. Roedd hwn yn rhwystr ond rydym yn ystyried a oes ffordd o leihau'r costau, neu eu lledaenu dros gyfnod hwy. Byddwn hefyd yn parhau i chwilio am ffyrdd fforddiadwy eraill o fynd i'r afael â'r broblem.

# Ein hymrwymiad i reoleiddio gwell

## Rheoliadau Machlud

Cafodd cymal ei gynnwys yn y rheoliadau ar yr ymagwedd Cyfanswm Enillion at fuddsoddi a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r Ddeddf Ymddiriedolaethau (Cyfalaf ac Incwm) 2013, sy'n ein hymrwymo i adolygu'r rheoliadau o fewn pum mlynedd o ddyddiad y rheoliadau (25 Hydref 2013). Rydym hefyd wedi paratoi asesiad effaith ar gyfer y rheoliadau Cyfanswm Enillion.

## Dewisiadau eraill i reoleiddio

Rydym hefyd wedi parhau i ddatblygu ein gwaith gyda phartneriaid. Er enghraifft, mae ein rhaglen i gymeradwyo systemau asesu ansawdd elusennau yn ceisio hyrwyddo llywodraethu da mewn ffordd nad yw'n rhoi baich rheoleiddio anwirfoddol ychwanegol ar elusennau (gweler tudalen 27).

# Atodiad Cyfreithiol

***Eleni, roedd y Comisiwn wedi ymwneud neu cafodd ei effeithio gan nifer o achosion cyfreithiol pwysig a phroffil uchel sydd wedi cael dylanwad ar ddatblygiad y gyfraith elusennau. Mae crynodeb cyfreithiol o'r achosion hyn wedi'u cynnwys yn yr adran hon.***

## Preston Down Trust (PDT)

### Cais i gofrestru fel elusen

Gwrthododd y Comisiwn gais i gofrestru Preston Down Trust (PDT), neuadd gwrdd Eglwys Gristnogol Brodyr Plymouth (a alwyd yn gynt yn Exclusive Brethren) ar 7 Mehefin 2012 ar y sail bod PDT heb ddangos digon o effaith fuddiol ar y gymuned ehangach i fodloni'r gofyniad budd cyhoeddus. Cafodd y penderfyniad ei apelio yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen). Cafodd yr achos hwnnw ei atal wedi hynny ar gais PDT i weld a allai'r materion cael eu datrys drwy broses arall.

Roedd y Comisiwn wedi edrych ar y mater o'r newydd gan ystyried tystiolaeth newydd fel y byddai'r Tribiwnlys wedi'i wneud. Y canlyniad oedd penderfyniad y Comisiwn dyddiedig 3 Ionawr 2014 y gallai PDT gael ei gofrestru fel elusen os oedd yn ailymgeisio i gofrestru gydag ymddiriedolaethau diwygiedig oedd yn cynnwys, fel rhan annatod o ddatganiadau'r ymddiriedolaethau (i) dysgeidiaeth graidd yr eglwys a (ii) y ffydd ar waith. Roedd y Comisiwn yn fodlon bod ymddiriedolaeth o'r fath yn elusennol ac yn hyrwyddo crefydd er budd cyhoeddus a bod hyn yn darparu fframwaith ar gyfer gweinyddu'r ymddiriedolaethau mewn ffordd sy'n elusennol ac sy'n gyfrwymol ar yr ymddiriedolwyr yn y dyfodol. Cafodd yr achos Tribiwnlys ei dynnu'n ôl o ganlyniad.

Roedd penderfynu a oedd PDT yn elusen gyda dibenion sy'n hyrwyddo crefydd ar gyfer budd cyhoeddus yn cynnwys ystyried y materion canlynol:

- Roedd y Comisiwn yn amau a oedd dibenion gweithred ymddiriedolaeth wreiddiol PDT yn ddigon pendant i fod yn elusennol. Penderfynodd, er nad oedd yn hollol rydd o amheuaeth, fel mater o ddehongliad, bod y weithred ymddiriedolaeth yn datgelu digon o fwriad i sefydlu ymddiriedolaeth elusennol yn unig o natur grefyddol. Yn unol â hynny, roedd ymddiriedolaethau elusennol mwy manwl yn gallu cael eu sefydlu drwy weithred amrywio.
- Roedd PDT wedi dadlau bod Holmes v Attorney General (The Times 12 February 1981) yn gynsail gyfreithiol gyfrwymol ar gyfer ei statws elusennol. Daeth y Comisiwn i'r casgliad nad oedd modd ystyried y penderfyniad yn Holmes fel cynsail a dylid ei wahaniaethu ar y gyfraith, oherwydd bod y penderfyniad hwnnw naill ai'n troi ar ragdybiaeth, neu o leiaf roedd wedi cael ei ddylanwadu'n helaeth gan fodolaeth rhagdybiaeth, o fudd cyhoeddus. Wrth benderfynu felly, dilynodd y Comisiwn yr egwyddorion yn ISC v Charity Commission [2011] UKUT 421 (TCC) ar y graddau y gall cyfraith achosion cyn Deddf Elusennau 2006, oedd wedi dileu unrhyw ragdybiaeth o fudd cyhoeddus ar gyfer hyrwyddo crefydd yn ogystal â disgrifiadau eraill o ddibenion a allai fod yn elusennol, fod yn gyfrwymol. Cafodd Holmes ei wahaniaethu hefyd ar y ffeithiau ar y sail bod y Comisiwn, yn wahanol i'r llys yn Holmes, wedi derbyn ac ystyried tystiolaeth yn ymwneud â niwed a cholled.

- Roedd y Comisiwn wedi dadansoddi cyfraith achosion cyn 2006 yn ymwneud â hyrwyddo crefydd a'r budd cyhoeddus gan ystyried effaith Deddf Elusennau 2006. Daeth i'r casgliad o'r gyfraith achosion nad yw'n ddigon i elusen grefyddol ddangos budd i'w dilynwyr a bod y budd cyhoeddus wedi'i bennu gan y raddfa y mae ei dysgeidiaeth foesol a moesegol yn effeithio ar y gymuned gan arwain at wella cymdeithas yn gyffredinol (Holmes, Neville Estates v Madden [1962] Ch 832). Os mai mynediad i wasanaethau crefyddol sydd dan sylw, mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal yn gyhoeddus er mwyn rhoi budd cyhoeddus (Cocks v Manners [1871] LR 12 Eq 574) a thueddu tuag at addysgu neu hyfforddi'r cyhoedd (Gilmour v Coats [1949] AC 426).
- Roedd y Comisiwn wedi ystyried dysgeidiaeth a natur arferion crefyddol PDT ac a ydynt yn rhoi budd cyhoeddus. Yn ôl y dystiolaeth, gwelodd y Comisiwn fod y ddysgeidiaeth o ymwahanu â drwg, sy'n ganolog i gredoau ac arferion PDT a'r Eglwys, yn arwain at (i) gwahanu moesol a ffisegol o'r gymuned ehangach a (ii) rhyngweithio cyfyngedig rhwng dilynwyr a'r cyhoedd. Roedd y Comisiwn hefyd wedi ystyried tystiolaeth yn ymwneud â honiadau o niwed a cholled yn deillio o arferion disgyblu'r Eglwys.
- Daeth y Comisiwn i'r casgliad fod effaith fuddiol i'w gweld drwy hyfforddiant ac addysg y cyhoedd mewn ffordd o fyw Gristnogol drwy: ddarparu mynediad cyhoeddus i addoli; addoli ar y stryd; dosbarthu cyhoeddiadau crefyddol; ac ymgysylltu i ryw raddau â'r gymuned ehangach, gan gynnwys gwaith cymorth trychineb, annog rhoi i elusennau a byw yn ôl credoau Cristnogol yn y gymuned.
- Cafodd y budd i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd ei ystyried. O bwyso a mesur, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod PDT yn gweithredu'n bennaf yn hytrach nag yn unig er budd ei aelodau. Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith nid oedd hyn yn dyngedfennol i statws elusennol o reidrwydd os oedd ymgysylltu â'r gymuned ehangach ac effaith fuddiol ar y gymuned ehangach, sy'n gyson â Neville Estates v Madden.
- Cafodd yr honiadau o niwed a cholled a gyflwynwyd i'r Comisiwn eu hystyried wrth asesu budd cyhoeddus. Roedd y prif awdurdod cyfreithiol National Anti Vivisection Society v IRC [1948] AC 31 wedi dal, er gwaetha'r budd amlwg oedd yn deillio o ddibenion sefydliad, os yw'r rhain yn cael eu gorbwyso gan niwed neu golled i'r gymuned drwy ddilyn ei dibenion, ni fydd y gofyniad budd cyhoeddus wedi'i fodloni. Cafodd asesu effaith niwed a cholled ei ystyried yn fanwl yn ISC v Charity Commission. Penderfynwyd bod rhaid i'r llys "pwyso a mesur y budd a'r anfantais ym mhob achos lle mae niwed yn cael ei honni a'i gefnogi gan dystiolaeth. Ond dylid rhoi pwys mawr ar ddiben a fyddai, fel arfer, yn elusennol; cyn y gellir rhoi llawer o bwysau i'r anfanteision honedig, rhaid iddynt gael eu harddangos yn glir."
- Penderfynodd y Comisiwn fod elfennau o niwed a cholled yn deillio o ddysgeidiaeth ac arferion yr Eglwys oedd yn cael effaith negyddol ar y gymuned ehangach yn ogystal ag unigolion ac felly'n creu perygl go iawn o fod yn llawer mwy na budd cyhoeddus.
- Roedd yr Eglwys wedi cydnabod camgymeriadau'r gorffennol ac roedd yn barod i wneud iawn am hynny. Roedd wedi bwriadu rhoi sylw i'r materion hyn drwy newid ei gweithred ymddiriedolaeth, gan amlinellu'n glir ei dysgeidiaeth a'i arferion, gan gynnwys tynnu sylw at y cysyniad o drugarhau wrth eraill, yn enwedig mewn perthynas â'i harferion disgyblu a'r cysylltiadau â chyn aelodau o'r Eglwys. Roedd y Comisiwn yn fodlon bod y ddysgeidiaeth a'r arferion yn rhan annatod o'r ymddiriedolaethau; bod y rhain yn dangos bwriad elusennol ac yn gyfrwymol ar yr ymddiriedolwyr wrth weinyddu'r neuadd gwrdd. Roedd y Comisiwn yn fodlon hefyd ei fod yn gallu rheoleiddio yn erbyn yr ymddiriedolaethau hyn ac y byddai'n monitro PDT yn y dyfodol.

# Kennedy v Comisiwn Elusennau [2014] UKSC 20

Y cefndir i'r achos oedd cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG") a wnaed gan Mr Kennedy (yr Apelydd), newyddiadurwr gyda The Times, am wybodaeth ynghylch ymchwiliadau statudol y Comisiwn i'r Mariam Appeal, elusen sy'n gysylltiedig â George Galloway, a fu'n gweithredu rhwng 1998 a 2003. Cynhaliwyd ymchwiliadau'r Comisiwn rhwng 2003 a 2007. Cafodd y cais cychwynnol ei fireinio'n ddiweddarach i:

a) dogfennau sy'n esbonio casgliad y Comisiwn y gallai Mr Galloway fod yn ymwybodol bod cyrff o Irac yn cyllido'r apêl

b) dogfennau yn gwahodd Mr Galloway i esbonio ei sefyllfa ac y defnyddiodd i ymateb

c) dogfennau oedd wedi pasio rhwng y Comisiwn ac awdurdodau cyhoeddus eraill a

ch) dogfennau sy'n bwrw goleuni ar y rheswm dros sefydlu a pharhad pob un o'r tri ymchwiliad yma.

Roedd y Comisiwn wedi gwrthod y cais, gan ddibynnu ar nifer o eithriadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan gynnwys Adran 32(2). Mae Adran 32(2) yn darparu bod yr wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu os yw wedi'i dal gan y rheoleiddiwr dim ond drwy rinwedd o fod wedi'i chynnwys yn (a) unrhyw ddogfen a roddwyd yng ngwarchodaeth rhywun sy'n cynnal ymchwiliad neu gyflafareddiad, ar gyfer y diben hwnnw, neu (b) unrhyw ddogfen a grëwyd gan y sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad neu'r cyfalafreddiad ar gyfer y diben hwnnw. Mae'r wybodaeth yn parhau wedi'i heithrio nes ei bod yn troi'n gofnod hanesyddol, 20 mlynedd ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben ar hyn o bryd yn amodol ar ddarpariaethau trosiannol, ond erbyn yr adeg roedd y Llys yn ystyried y pwynt roedd yn 30 o flynyddoedd (gweler Adrannau 62(1) a 63(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958).

Roedd yr achos wedi symud i'r cam apelio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Tribiwnlys Gwybodaeth a'r Llys Apêl. Barnwyd mai pwysigrwydd yr achos oedd i'r Llys ystyried y materion cystadleuol o gael mynediad i wybodaeth a diogelu gwybodaeth. Roedd mynediad i wybodaeth yn hanfodol i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud, atebolrwydd, bod yn sail i ddemocratiaeth ac ymladd gormes, llygredd, rhagfarn ac aneffeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae diogelu gwybodaeth sy'n wirioneddol breifat, gyfrinachol neu sensitif yn parhau i fod yn angenrheidiol er mwyn gwarchod y materion pwysicaf, megis y berthynas rhwng Gwladwriaethau.

Gofynnodd yr Apelydd i'r Llys ystyried (1) drwy gymhwyso egwyddorion cyfraith gwlad o ddehongliad i Adran 32(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae'r eithriad yn gymwys dim ond tra bo'r ymchwiliad yn parhau ac yn dod i ben pan fydd wedi gorffen, a (2) hyd yn oed ar ôl cymhwyso egwyddorion cyfraith gwald, mae'r eithriad yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben, fod y dehongliad o adran 32(2) yn ymyrryd â'i hawliau o dan Erthygl 10(1) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, nid yw'r ymyrraeth wedi'i chyfiawnhau o dan Erthygl 10(2), ac mae Adran 3 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn gofyn i Adran 32(2) gael ei darllen a'i gweithredu fel ei bod yn peidio â bod yn gymwys ar ddiwedd yr ymchwiliad. Mae Erthygl 10(1) yn darparu'r hawl i ryddid mynegiant, gan gynnwys y rhyddid i arddel barn a derbyn a rhoi gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus ac waeth beth fo'r ffiniau.

Dadleuodd yr Apelydd drwy gymhwyso egwyddorion cyfraith gwald o ddehongliad statudol, mai'r dehongliad cywir o Adran 32(2) yw pan fydd ymchwiliad wedi dod i ben, mae'r wybodaeth a ddelir gan yr awdurdod cyhoeddus sydd wedi'i chynnwys fel arall o fewn Adran 32(2) yn peidio â chael ei dal dim ond trwy'r rhinwedd o fod wedi'i chynnwys mewn dogfen y mae Adran 32(2) (a) neu (b) yn gymwys iddi, a bydd yn peidio â chael ei dal dim ond ar gyfer dibenion yr ymchwiliad hwnnw. Felly, ni fydd Adran 32(2) yn gymwys mwyach i'r wybodaeth. Hyd yn oed os yw cymhwyso egwyddorion cyfraith gwlad yn cynhyrchu dehongliad gwahanol, nid yw'r dehongliad hwnnw yn gyson â'i hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10(1). Mae'r hawl honno wedi'i sefydlu'n glir yn unol ag awdurdodau o Lys Hawliau Dynol Ewrop gan ddechrau gyda Matky v Czech Republic [2006] ECHR 1205, lle mae'r Llys wedi barnu bod Erthygl 10(1) yn creu hawl i wybodaeth lle mae cyrff gwarchod cyhoeddus yn casglu gwybodaeth gan y llywodraeth ar faterion o bryder cyhoeddus at y diben o greu fforwm ar gyfer dadl gyhoeddus. Yn yr amgylchiadau mae'n rhaid darllen Adran 32(2) er mwyn gweithredu'r hawl honno, yn unol ag Adran 3 y Ddeddf Hawliau Dynol.

Dadleuodd y Comisiwn drwy gymhwyso egwyddorion cyfraith gwlad o ddehongliad mae'r eithriad yn Adran 32(2) yn parhau tan 30 o flynyddoedd ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben (20 mlynedd erbyn hyn yn amodol ar ddarpariaethau trosiannol). Yn ogystal, nid yw Erthygl 10(1) yn rhoi hawl mynediad gyffredinol i wybodaeth nad yw deiliad yr wybodaeth yn barod i'w rhoi. Mae'r ddadl hon wedi'i chynnal gan linell awdurdod glir a chyson yn Llys Hawliau Dynol Ewrop, gan ddechrau gyda Leander v Sweden (1987) 9 E.H.R.R. 433, ac yn dilyn ymlaen trwy Gaskin v United Kingdom [1990] 12 E.H.R.R. 36, Guerra v Italy (1998) 26 E.H.R.R. 357, a Roche v United Kingdom [2006] 42 E.H.R.R. 30. Cafodd y pwynt ei gadarnha gan y Siambr Fawr yn Gillberg v Sweden (2012) 34 BHRC 247, lle y datganodd y Llys, "Mae'r hawl i dderbyn a rhoi gwybodaeth yn ffurfio rhan benodol o'r hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10. Mae'r hawl honno yn ei hanfod yn gwahardd Llywodraeth rhag atal rhywun rhag derbyn gwybodaeth y bydd eraill yn dymuno neu'n gallu ei rhoi iddi." Hyd yn oed os oedd y Llys yn dal bod yr hawl yn bodoli, nid yw absenoldeb llwybr Deddf Rhyddid Gwybodaeth i gael gwybodaeth yn ymyrryd â'r hawl honno, ac os oes ymyrraeth mae wedi'i chyfiawnhau o dan Erthygl 10(2). Os oes unrhyw anghydlyniant yr ateb priodol yw datganiad o anghydlyniant o dan Adran 4 o'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Roedd y mwyafrif o'r Arglwyddi Ustus wedi gwrthod yr apêl a chynnal barn y Comisiwn yn yr achos hwn. Fe gynhalion nhw fod:

- Fel mater o ddehongliad statudol cyffredin y dehongliad mwy naturiol o Adran 32(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw ei bod yn rhoi eithriad absoliwt rhag datgelu sy'n para hyd nes bod yr wybodaeth berthnasol wedi'i dinistrio neu hyd nes y daw'n gofnod hanesyddol (20 mlynedd ar hyn o bryd yn amodol ar ddarpariaethau trosiannol). Mae hyn yn gweddu'n well hefyd â chynllun y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan Adran 63(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, nid oes modd i wybodaeth mewn cofnod hanesyddol fod yn wybodaeth a eithriwyd drwy rinwedd Adran 32. Y dehongliad naturiol yw y byddai gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn Adran 32 yn parhau i gael ei heithrio hyd nes yr adeg honno yn hytrach na pheidio â chael ei heithrio ar ddiwedd yr ymchwiliad.
- Nid yw'r Apelydd yn cael ei gynorthwyo drwy ei ddibyniaeth ar Erthygl 10 o'r Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd oherwydd mae llwybrau eraill ganddo i gael yr wybodaeth sy'n ei roi mewn sefyllfa nad yw'n llai ffafriol nag y byddai ynddi pe byddai Erthygl 10 yn weithredol. Nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gwahardd datgelu'r wybodaeth, nid yw Adran 32(2) yn ymyrryd ag unrhyw hawl sydd gan yr Apelydd i dderbyn yr wybodaeth.
- Mae gan y Comisiwn bwerau eang i ddatgelu gwybodaeth o dan Ddeddf Elusennau 2011. Amlinellir y rhain yn Adrannau 14-16 o Ddeddf Elusennau 2011.
- Mae'r dehongliad o'r Ddeddf Elusennau wedi'i seilio ar ragdybiaeth cyfraith gwlad o blaid bod yn agored mewn cyd-destun megis yr un yn yr achos hwn. Dylai prosesau barnwrol fod yn agored i graffu cyhoeddus, oni bai ac i'r graddau y mae rhesymau da dros ddiogelwch. Bod yn agored yw'r ffordd orau o sicrhau bod y rhai sy'n arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth yn gwybod beth sy'n digwydd, a chynnal ffydd gyhoeddus.

- Mae egwyddorion cyfraith gwald o gyfiawnder agored yn gymwys i ddatgeliadau mewn ymchwiliadau fel y maent i ddatgeliad gan y Llys, er y bydd cymhwyso egwyddorion o'r fath yn amrywio. Mae cyfiawnder agored yn egwyddor gyfansoddiadol sydd i'w gweld nid mewn testun ysgrifenedig ond mewn cyfraith gwlad. Mae'n egwyddor sy'n deillio o'r gofyniad o fod yn agored/teg mewn achosion barnwrol. Mae gofynion cyfiawnder agored yn gymwys i bob tribiwnlys sy'n arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth. Trafodir yr egwyddorion hyn yn achos R (Guardian News and Media Ltd) v City of Westminster Magistrates' Court (Article 19 intervening) [2012] EWCA Civ 420, [2013] QB 618. Byddai angen i'r budd cyhoeddus mewn datgeliad o dan egwyddorion o'r fath gael eu pwyso a'u mesur yn erbyn unrhyw fudd cyhoeddus neu breifat i beidio â datgelu gan adlewyrchu Erthygl 10(2).
- Yn wyneb pwysigrwydd bod yn agored a thryloyw mewn prosesau barnwrol, megis y rhai mewn ymchwiliad, bydd y llys yn cymhwyso safon uchel iawn o adolygiad i unrhyw adolygiad barnwrol o benderfyniad i beidio â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliad o dan y pwerau hynny.
- Pe na fyddai wedi bod angen gwneud hynny, byddai'r mwyafrif wedi dod i'r casgliad nad yw Erthygl 10 yn gosod dyletswydd gadarnhaol annibynnol o ddatgelu ar awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, ni weithredwyd Erthygl 10.

Daeth y lleiafrif i'r casgliad y bydden nhw wedi caniatáu'r apêl ar y sail:

- y gellid darllen Adran 32(2) i lawr fel bod yr eithriad absoliwt yn dod i ben ar ddiwedd yr ymchwiliad perthnasol. Byddai hyn yn cadw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y dull ar gyfer cael gwybodaeth, a fyddai'n cynnig nifer o fanteision i rywun sy'n ceisio gwybodaeth o'i gymharu â gweithdrefn adolygiad barnwrol.
- Roedd hawl gan yr Apelydd i dderbyn yr wybodaeth a geisiwyd o dan Erthygl 10 o Lys Hawliau Dynol Ewrop.

**Y goblygiadau i'r Comisiwn Elusennau**

Mae'r Comisiwn yn croesawu'r eglurhad gan y Llys fod Adran 32(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithriad absoliwt sy'n parhau hyd nes bod dogfennau'r ymchwiliad yn troi'n gofnodion hanesyddol. Bydd y Comisiwn yn ystyried materion datgelu mewn perthynas â gwybodaeth o'r fath o dan ei bwerau fel y nodwyd yn Neddf Elusennau 2011, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder agored.

# R (ar gais Hodkin ac arall) (Apelyddion) v Cofrestrydd Cyffredinol Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau (Ymatebwr) [2013] UKSC 77

Roedd yr apêl yn ymwneud â'r cwestiwn a oes modd cofnodi'r Eglwys Seientoleg fel "lle i gwrdd ar gyfer addoli crefyddol" o dan Ddeddf Cofrestru Mannau Addoli 1855, gyda'r effaith y gall seremoni briodas ddilys gael ei chynnal yno.

Dywedodd y Cofrestrydd Cyffredinol Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau ei bod hi wedi'i rhwymo gan benderfyniad y Llys Apêl yn 1970 yn R v Registrar General, ex parte Segerdal [1970] 2 QB 697 ("Segerdal") i wrthod cais yr Apelydd. Yn yr achos hwnnw, oedd yn cynnwys cais cynharach gan yr Eglwys Seientoleg i gofnodi capel o dan y Ddeddf Cofrestru Mannau Addoli, roedd y Llys Apêl wedi cynnal nad oedd Seientoleg yn cynnwys "addoli crefyddol" oherwydd nid oedd yn cynnwys "parchu neu fawrygu Dwy neu Fod Mawr", ond yn hytrach yn addysgu athroniaeth.

Roedd yr Apelyddion wedi cynnal adolygiad barnwrol o benderfyniad y Cofrestrydd Cyffredinol. Roedd yr Uchel Lys hefyd wedi cynnal ei fod wedi'i rwymo gan Segerdal i wrthod cais yr Apelyddion am adolygiad barnwrol, gan gasglu yn seiliedig ar y dystiolaeth fod Seientoleg yn grefydd, ond bod diffiniad Segerdal o "addoli crefyddol" yn parhau heb ei fodloni, oherwydd ni fu unrhyw newid sylfaenol yn natur ac arferion Seientoleg ers 1970. Gan y byddai Segerdal yn gyfrwymol ar lefel y Llys Apêl hefyd roedd yr Uchel Lys wedi ardystio pwynt o'r gyfraith o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol ar gyfer apêl "llam llyffant" yn uniongyrchol i'r Goruchaf Lys.

Roedd y Goruchaf Lys wedi caniatáu'r apêl yn unfrydol. Roedd wedi adolygu'r gyfraith achosion bresennol gan gynnwys achosion yn America ac Awstralia a dyfarnu yn erbyn achos Segerdal. Fe gynhaliwyd fel y ganlyn:

- Wrth ystyried a oedd eglwys yr Apelyddion yn gymwys i'w chofnodi o dan y Ddeddf Cofrestru Mannau Addoli, y cwestiwn safonol cyntaf yw a yw'n briodol ystyried Seientoleg fel crefydd?
  - Mae'r dehongliad o "addoli crefyddol" yn Segerdal yn cynnwys diffiniad theistig ymhlyg o grefydd: yr hyn oedd ei angen ar y Llys Apêl oedd parch at Dduw.
  - Penderfynodd yr Uchel Lys yn gywir bod Seientoleg yn grefydd, er ei fod yn teimlo wedi'i rwymo gan benderfyniad y Llys Apêl yn Segerdal bod addoli crefyddol yn gofyn am wrthrych mawrygi roedd yr addolwr yn cyflwyno ei hun iddo. Ni ddylai crefydd gael ei chyfyngu i ffydd sy'n cynnwys duw goruchaf, oherwydd byddai gwneud hynny yn eithrio Bwdhaeth, Jainiaeth ac eraill. At hynny, byddai'n golygu bod y llys yn troedio ar dir diwinyddol anodd: mae Seientolegwyr yn credu mewn duw goruchaf, ond un o natur haniaethol ac amhersonol. Nid yw'n briodol i'r Cofrestrydd Cyffredinol na'r llysoedd i benderfynu cwestiynau megis a yw'r gred hon yn grefydd. Mewn cyd-destun gwahanol, mae Deddf Elusennau 2006 yn datgan bod "crefydd" yn cynnwys crefyddau sydd heb ymwneud â chred yn nuw.
  - Gallai crefydd yn gryno gael ei disgrifio fel system gred sy'n mynd y tu hwnt i ganfyddiad synhwyraidd neu ddata gwyddonol, a arddelir gan grŵp o ffyddloniaid, sy'n honni ei bod yn esbonio lle dynol ryw yn y bydysawd a'r berthynas â'r anfeidraidd, ac addysgu ei dilynwyr sut y dylent fyw eu bywydau gan gydymffurfio â'r ddealltwriaeth ysbrydol sy'n gysylltiedig â'r system gred. Ar sail yr ymagwedd hon at grefydd, roedd Seientoleg yn amlwg yn grefydd.

- Y cwestiwn a ddilynodd oedd a oedd eglwys yr Apelyddion yn "lle i gwrdd ar gyfer addoli crefyddol".
- Mae "addoli crefyddol" yn cynnwys "gwasanaethau crefyddol" yn ogystal â chysyniad Segerdal o barchu neu fawrygu duw. Mae hyn yn cyd-fynd â diben y statud: ni ddylai'r awdurdodaeth i briodi yn unol â'ch ffydd ddibynnu ar fanylion diwinyddol neu litwregol ynghylch sut y mae credinwyr yn gweld ac yn mynegi eu perthynas â'r anfeidredd.
- Ni allai priodasau ar safleoedd anghofrestredig gynnwys unrhyw fath o "wasanaeth crefyddol", felly pe na fyddai Seientolegwyr yn gallu priodi yn eu heglwys eu hunain, ni allent gael priodas gyfreithiol yn unol â'u ffydd. Gan fod yr Eglwys Seientoleg yn cynnal gwasanaethau crefyddol, mae'n dilyn bod ei eglwys yn "lle i gwrdd ar gyfer addoli crefyddol", a gorchmynnir i'r Cofrestrydd Cyffredinol ei gofnodi felly.

### Y goblygiadau i'r Comisiwn Elusennau

Roedd y Comisiwn Elusennau yn ei benderfyniad dyddiedig 17 Tachwedd 1999 ar gais yr Eglwys Seientoleg i'w chofrestru fel elusen sy'n hyrwyddo crefydd wedi llunio diffiniad pedwar pwynt o grefydd at ddibenion y gyfraith elusennau. Y cyntaf yw natur y system gred, yr ail yw bodolaeth addoli crefyddol, y trydydd yw'r angen i hyrwyddo'r grefydd, y pedwerydd yw bod rhaid i'r grefydd fod er budd y cyhoedd. Gall gwrthod Segerdal addasu ystyr dau bennawd cyntaf y diffiniad hwn sy'n ymwneud â'r diffiniad o grefydd at ddibenion y gyfraith elusennau. Fel y nodir uchod, mae'n rhaid i hyrwyddo crefydd at ddibenion y gyfraith elusennau barhau i fod er budd y cyhoedd.

i Dyma nifer yr achosion a gafodd sylw gan y Tîm Sicrwydd Busnes yn Ngham 2 y broses gwyno. Mae cwynion yng Ngham 1 yn cael sylw gan y meysydd busnes gwreiddiol a heb eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

ISBN 978-1-4741-0505-7

9 781474 105057